Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 11: 10514 - 10611

**BCW-10514 / [redacted] / Machynlleth**

Rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr.

Nid yw newid ffiniau yn effeithio ar ymdeimlad o hunaniaeth bob amser, ond mae tair sir gyfansoddol Powys yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r disgrifiadau hynny fel rhan o'u hunaniaeth. Mae cadw ffiniau etholaethau ar linellau sirol wedi parhau i feithrin hynny. Mae "Powys" yw enw'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn unig, ond mae'r bobl yn 'perthyn' i Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed a Sir Frycheiniog.

I ni yn y gorllewin, ceir braint arbennig o fod yn Gymry Cymraeg Sir Drefaldwyn. Nid dim ond Cymry Cymraeg: Cymry Cymraeg Sir Drefaldwyn.

Byddai hyn wedi'i beryglu wrth ddileu etholaeth Sir Drefaldwyn. Nid ydym yn Gymry Cymraeg Ceredigion neu Wynedd; mae'r tri yn wahanol iawn. Mae'r cynigion hyn yn ein galluogi i barhau i ddathlu'r gwahaniaethau hapus, a'u gwreiddiau hanesyddol, mewn Cymru gyfoes sy'n cydnabod yn glir yr hunaniaethau unigryw.

I Gymry Cymraeg Rhosllannerchrugog, Talwrn a Ddôl, dim ond enw eu hetholaeth sy'n newid. Mae eu holl gyfeiriadau diwylliannol eraill yn aros yr un fath. Byddai dileu "Sir Drefaldwyn" yn swyddogol yn mynd ymhellach na hynny ac yn gofyn i ni newid pwy ydym ni.

**BCW-10515 / [redacted] / Y Drenewydd**

Dymunwn gytuno a'r newidiadau i ffiniau a awgrymwyd ar 31 Hydref 2022 – sef cadw Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd yn hytrach na'i rhannu.
Gofynnaf i chi beidio â'i rhannu, mae'n ardal mor hynafol, mae'n haeddu cael ei chadw'n un am bob math o resymau.

**BCW-10516 / [redacted]/ Croesoswallt**

Byddai'n drychineb hanesyddol pe bai hunaniaeth Sir Drefaldwyn yn cael ei pheryglu mewn unrhyw ffordd. Mae'n sir hardd a balch. Mae cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu ar benderfyniadau doeth yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, ac ni ddylid caniatáu i wleidyddiaeth ymyrryd yn y penderfyniadau hynny.

Rydym yn byw mewn cyfnod anodd ar hyn o bryd, mae'r holl fyd fel petai mewn cythrwfl. Byddai'n dda gennym deimlo y bydd synnwyr cyffredin, parch, a meddwl deallgar yn cael blaenoriaeth yn y mater hwn. Os gwelwch yn dda, peidiwch â dinistrio Sir Drefaldwyn!

**BCW-10517 / [redacted] / Trefaldwyn**

Cytunaf â'r cynigion ac rwyf o'r farn ei bod yn hanfodol cadw maint a chwmpas y ffiniau a gynigir er mwyn cynnal hygrededd y cynrychiolydd.

**BCW-10518 / Cyng. Jan Jones / Y Coed-duon**

Dymunaf fynegi fy marn ar y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth seneddol Islwyn.

Nid wyf o blaid y cynnig i rannu etholaeth Islwyn. Bydd hyn yn golygu mai Casnewydd fydd ffocws y fwrdeistref newydd. Diau y bydd yr AS wedi'i leoli yng Nghasnewydd. Bydd etholwyr yn 'hen' fwrdeistref Islwyn yn ychwanegiad at ba bynnag benderfyniadau a wneir.
Ar hyn o bryd, gallaf gwrdd â'r AS wrth wneud taith fer i swyddfeydd yr etholaeth. Mae ei staff yn adnabyddus i'w etholwyr, yn aml ar delerau enwau cyntaf. Roedd Chris Evans AS a Don Touhig o'i flaen yn adnabyddus iawn yn yr ardal. Roeddent yn adnabod eu hetholwyr ac roeddem ninnau'n eu hadnabod hwythau. Roeddent yn gwybod am bob mater, boed yn fater 'seneddol' neu'n ymwneud â'r cyngor lleol. Bu'r ddau yn mynychu llawer o gynulliadau/gwrthdystiadau. Yn aml, byddai Chris yn dod â'i deulu i orymdeithio gyda'i etholwyr ac i fynychu cyfarfodydd cymunedol lleol – â'r babi mewn cadair wthio. Dyma hanfod AS lleol – nid rhyw AS pell heb unrhyw gysylltiad â'r ardal ond sy'n wleidyddol gywir gan fod ganddynt y nifer cywir o etholwyr.

Gofynnaf i chi ailystyried cynnig gwreiddiol y comisiwn, a fyddai'n golygu bod etholaeth Islwyn yn parhau'n gyfan i raddau helaeth ond gan ychwanegu rhagor o wardiau sydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, am y rhesymau canlynol.

- Mae'r cynigion gwreiddiol yn cydnabod y cysylltiadau daearyddol o fewn ein cwm.
- Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn briodol o ystyried y cymunedau cysylltiedig yn yr ardal.
- Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach. Ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam.
- Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.
- Mae ffordd yr A472 yn rhedeg o Drecelyn trwy Bontllanfraith i Ystrad, sy'n dangos y cysylltiadau clir rhwng yr ardaloedd. Yn y pen draw, nid oes unrhyw gysylltiad rhwng Trecelyn a Chasnewydd a all gymharu â'r cysylltiadau o fewn ffiniau presennol Islwyn a gynigir gan yr arolwg.
- O ran trafnidiaeth nid oes cyswllt rheilffordd rhwng Islwyn a Chasnewydd.
- Mae cysylltiad annatod rhwng ardaloedd Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon o ran teuluoedd a chymunedau. Pan mae clybiau rygbi'r Coed-duon a Threcelyn yn chwarae yn erbyn ei gilydd, disgrifir hyn fel gornest leol.
- Yn Islwyn ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ysgolion cynradd sy'n bwydo ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth.
- Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn yn Oakdale, sy'n ysgol newydd, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith.
- Mae'r holl ysgolion uwchradd, y Coed-duon, Ysgol Uwchradd Islwyn, Trecelyn, Rhisga ac Ysgol Cwm Rhymni, yn bwydo un coleg addysg bellach yn unig, sef Coleg Gwent, sydd eto wedi'i leoli yn etholaeth Islwyn.

Yr eiddoch yn gywir,
Cyng. Jan Jones (Cynghorydd Annibynnol)

## BCW-10519 / [redacted] / Caerdydd

Annwyl Foneddigion

Hoffwn gofnodi fy niolch i chi a'm cefnogaeth i'r penderfyniad rydych wedi'i wneud ynghylch ffiniau etholaeth Caerffili.

Credaf fod uniondeb cymunedau etholaeth Caerffili wedi'i gydnabod a'ch bod wedi dod i gasgliad synhwyrol a groesewir.

Gobeithiaf yn awr y gallwn symud ymlaen heb newidiadau pellach.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

## BCW-10520 / [redacted] / Anhysbys

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 31 Hydref 2022 15:56
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** 'Cynigion Diwygiedig CFfG: Caerffili'

Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf i ddweud fy mod yn cytuno â'r ail gynnig ar gyfer newid ffiniau.

Cofion cynnes,

[redacted]

## BCW-10521 / [redacted] / Caerfyrddin

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i ddiwygio'r ffiniau.

## BCW-10522 / [redacted] / Sir Ddinbych

Rwy'n pryderu bod rhannau gorllewinol o Ddyffryn Dyfrdwy yn cael eu cynnwys o fewn etholaeth newydd Maldwyn a Glyndŵr. Byddai'n fwy priodol gosod y trefi a'r pentrefi penodol o Lyndyfrdwy i Landrillo, gan gynnwys Corwen, yn Nwyrain Clwyd, oherwydd eu cysylltiadau trafnidiaeth a symudiadau pobl wrth weithio, siopa ac ati yn Llangollen a thu hwnt ar hyd ffordd yr A5.

## BCW-10523 / [redacted] / Penprysg a Phencoed

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 01 Tachwedd 2022 08:46
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Newidiadau arfaethedig i ffiniau

Annwyl Gomisiynydd.
Ysgrifennaf i fynegi fy siom ynghylch y newidiadau arfaethedig yn fy ardal, sef Penprysg a Phencoed.
Nid oes gennym ni yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr unrhyw gysylltiad â'r ardal rydych yn bwriadu i ni ymuno â hi.
Rwy'n gobeithio y byddwch yn sylweddoli bod hwn yn gamgymeriad mawr.
Yr eiddoch yn gywir, [redacted]

**BCW-10524 / [redacted] / Abertawe**

[redacted]

31 Hydref 2022

Ms Shereen Williams MBE OStJ
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Annwyl Ms Williams,

Yn dilyn cyhoeddi cynigion diwygiedig Comisiynwyr Ffiniau i Gymru Ei Fawrhydi, ysgrifennaf i wneud sylwadau ac awgrymu dewis amgen sy'n cydymffurfio â Rheol 2 i ddisodli'r cynigion diwygiedig ar gyfer y ffin rhwng etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe a sedd arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Mae fy ngwrthgynnig wedi'i anelu at liniaru'r sgil-effaith anffodus o ganlyniad i ddiwygiadau'r Comisiwn mewn perthynas â Phen-y-bont; sef symud ward Glandŵr i sedd sydd fel arall yn gyfan gwbl i'r dwyrain o afon Tawe. Rwy'n cynnig adfer Glandŵr i Ganol a Gogledd Abertawe, ac yn lle hynny, croesi afon Tawe yng ngogledd ac yn ne ardal awdurdod unedol Abertawe. Mae cyfnewid cytbwys sy'n cydymffurfio â Rheol 2 hefyd yn gofyn am gynnwys cymuned bresennol Llangyfelach. Yn y gofrestr etholiadol ar gyfer y Dyddiad Penodol, mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi fel Dosbarthiadau Etholiadol hen wardiau'r Castell, Mawr a Llangyfelach.

| **O Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe:** | | **Cyfanswm nifer yr Etholwyr** |
|---|---|---|
| GLANDŴR | *(4,821 o etholwyr, etholfraint Tŷ'r Cyffredin)* | **5,017** |

| **O Ganol a Gogledd Abertawe i Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe:** | |
|---|---|
| Dosbarth etholiadol y Castell XA (ardal y Marina; bellach, ochr orllewinol ward y Glannau) | 2,213 |
| Dosbarth etholiadol Mawr DW (Craig-cefn-parc, bellach yng nghymuned / ward Clydach) | 909 |
| Dosbarth etholiadol Mawr DX (Felindre, bellach yng nghymuned / ward Llangyfelach) | 292 |
| Llangyfelach CH1 (cymuned / ward Llangyfelach) | 1,842 |
| Llangyfelach CH2 (cymuned / ward Llangyfelach) | 123 |
| | **5,379** |

Rwy'n ddyledus i uned gwasanaethau democrataidd Dinas a Sir Abertawe am roi i mi niferoedd yr etholwyr ar gyfer dosbarthiadau etholiadol ledled Abertawe ar y Dyddiad Penodol. Dylid nodi bod y cyfansymiau hyn ar gyfer POB etholwr cofrestredig ar y Dyddiad Penodol. Mae etholfraint Tŷ'r Cyffredin wedi'i chyfyngu i bobl 18 oed a hŷn ac mae'n eithrio gwladolion nad ydynt o'r DU, Iwerddon neu'r Gymanwlad a all bleidleisio mewn etholiadau eraill. Er mwyn cymharu, mae'r ffigurau hyn, lle maent ar gael, yn cael eu rhoi mewn cromfachau *(italig llwyd)*. Mae'r gwahaniaethau'n ymddangos yn ansylweddol. Er bod nifer o fyfyrwyr rhyngwladol yn byw yng

ngorllewin ward y Glannau, nid yw'n glir p'un a yw llawer ohonynt yn cofrestru i bleidleisio o gwbl. Os felly, gallai'r cyfnewid ddod hyd yn oed yn agosach at gydbwysedd.

At ddibenion Rheol 2, yr amrediad etholwyr statudol ar gyfer etholaethau yng Nghymru nad ydynt yn warchodedig yw rhwng 69,724 a 77,062. Yn ôl y cynnig diwygiedig, byddai gan etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe 72,172 o etholwyr. Byddai gan etholaeth Canol a Gogledd Abertawe 71,378 o etholwyr. Mae'r ddau ychydig yn is na chwota etholiadol y DU o 73,393; ond mae'n amlwg na fyddai'r amrediad etholwyr statudol yn cael ei dorri ar y naill ochr na'r llall o ganlyniad i'r cyfnewid hwn.

Gan fod gennyf fynediad at y data angenrheidiol ar gyfer Abertawe yn unig, nid wyf mewn sefyllfa i benderfynu os oes modd defnyddio dull tebyg ar gyfer etholaethau arfaethedig eraill yng Nghymru.

Mae'n amlwg bod pob un o'r ardaloedd y bwriadaf eu newid yn rhannu cysylltiadau lleol gweddol sylweddol, megis: dyddiadau casglu sbwriel; cynrychiolaeth wleidyddol o fewn yr awdurdod unedol; ac yng Nghlydach a Llangyfelach, cynghorau cymuned sy'n gosod praeseptau.

Mae'n ddiau fod y Comisiwn yn ymwybodol bod ward Glandŵr yn cynnwys dwy ardal ddaearyddol fras; sef Hafod a Phlasmarl. Er bod y ffin ddwyreiniol (afon Tawe) yn glir, mae'r ffiniau â'r Castell, Cwmbwrla, Mynydd-bach a Threforys yn llawer llai amlwg ac mae'n glir bod gan gymuned Glandŵr gysylltiad agosach â'r rhain na Bôn-y-maen.

Mae dwy ran Glandŵr yn cynnwys i raddau helaeth tai teras bach a godwyd yn agos at y diwydiant prosesu copr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r tai preifat cymharol rad wedi gweld anheddiad pobl o ystod amrywiol o gefndiroedd ethnig, diwylliannol a chrefyddol yn ward Glandŵr sydd mewn cysylltiad â rhwydweithiau perthnasol ledled cytref ganolog Abertawe, ac ni adlewyrchir hyn yng Nghastell-nedd. Mae perchenogaeth ceir preifat yn gymharol isel – oherwydd y cyfyngiadau ymarferol ar barcio, a lefelau uchel o amddifadedd lluosog. Mae dalgylch Ysgol Gyfun Pentrehafod yng nghanol Glandŵr yn cwmpasu pob un o'r wardiau cyfagos; yn etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe.

Mae dosbarth etholiadol y Castell XA / Marina wedi'i gysylltu'n gynhwysfawr i'r dwyrain gan ddwy groesfan i gerddwyr/beicwyr a chroesfan gylchol dros ddwy bont ar gyfer traffig modurol. Mae'r gymdogaeth weddol gefnog hon yn clystyru o amgylch hen Ddoc y De; mae wedi'i hadfywio dros y degawdau diwethaf ac fe'i hadwaenir bellach fel y Marina. Mae llawer o'r stoc tai yn cynnwys blociau o fflatiau modern a ddatblygwyd ac a reolir yn breifat, y mae cyfran dda ohonynt yn cael eu rhentu, gan arwain at lawer o fynd a dod ymhlith etholwyr. Adlewyrchir y mathau hyn o dai ar draws afon Tawe yn natblygiad diweddarach SA1 sydd wedi'i glystyru o amgylch Doc Tywysog Cymru, sydd bellach yn segur. Mae'r ddwy ochr i'r afon yn apelio at weithwyr proffesiynol ifanc a segmentau cefnog eraill sy'n symud i Abertawe ac nad ydynt efallai o'r ardal leol.

Nid oedd Clydach na Llangyfelach erioed yn rhan o hen ardal Abertawe yn hanesyddol, ac mae gan y ddwy gymuned gysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell ag etholaeth sydd â Chastell-nedd fel canolbwynt, yn wahanol i Landŵr.

Mae cymuned Clydach yn cysylltu â Glais a Gellifedw yn ogystal â Threforys a Phontardawe. Dros gyfnod o amser, fodd bynnag, mae ffiniau'r wardiau wedi methu ag addasu i adeiladu tai ar ymyl gorllewinol y ward. Dyna pam mae stad dai Craig-cefn-parc yn pontio'r ffin â Mawr yn y dwyrain. Mae'n gwneud synnwyr da iawn i ystyried holl ddosbarth etholiadol Craig-cefn-parc yn ward Mawr fel estyniad o Glydach, gan mai dyna'r unig ffordd i mewn ac allan o'r pentref i'r preswylwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r gymdogaeth sefydlog yn Llangyfelach heddiw yn glystyrau o gymudwyr ar draffordd yr M4, gyda thai ar wahân i deuluoedd yn bennaf, a dibyniaeth uchel ar geir. Mae'n fwyaf defnyddiol rhannu ward Llangyfelach rhwng dosbarth etholiadol Cyffordd 46 a dosbarth etholiadol C47; mae'n amhosibl yn llythrennol i gerdded neu feicio rhwng y ddau. Mae'n gwneud synnwyr i ddosbarth etholiadol C46 yn Llangyfelach ymuno â dosbarth etholiadol eang a gwasgarog Felindre ym Mawr, gan mai C46 yw'r prif lwybr i mewn ac allan o Felindre. I bobl sydd â mynediad i gerbyd modur, mae'r M4 yn darparu cysylltiadau ardderchog â Llansamlet a Chastell-nedd. Mae Ysbyty Treforys yn gweithredu fel cyfnewidfa fysiau ar gyfer gwasanaethau yng Nghastell-nedd ac yn Abertawe.

Er bod y ffin rhwng Llangyfelach â Phenderi (sef y ffin hanesyddol rhwng Sir Forgannwg a Dosbarth Abertawe) yn ymestyn i'r de bron i Gadle; mae Penderi a Phenlle'r-gaer yn parhau â chysylltiad daearyddol â'i gilydd trwy lain gul sy'n cynnwys ffordd yr A483 (Ffordd Pontarddulais). Mae'n cysylltu â C47 a'r M4 a'r A48 i Bontarddulais.

I'r graddau y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel iaith gyntaf (mamiaith) mewn unrhyw fan yn Abertawe, mae tueddiad yng ngogledd y Ddinas a'r Sir i fod â chyfraddau tebycach i'r rhai yng Nghastell-nedd. Er nad yw nifer sylweddol o aelwydydd yn ward Glandŵr yn siarad Saesneg fel eu prif iaith, nid yw'n well ganddynt, fel rheol, gyfathrebu â'u AS trwy gyfrwng y Gymraeg yn lle hynny.

Yn eu cyflwyniad i'w cynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn datgan (pwynt 24, tudalen 14)

*"Y ffiniau llywodraeth leol y caiff y Comisiwn eu hystyried yw'r rhai hynny a fodolai yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau arfaethedig yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Fel y cyfryw, ni fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau llywodraeth leol newydd nad oeddent yn bodoli, ac na ddarparwyd ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth, ar y dyddiad hwnnw."*

Mae hyn yn fy nharo fel dehongliad cyfyngol iawn o Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020; sef yr iteriad cyntaf ers cyflwyno Rheol 5 yn wreiddiol yn Neddf 1986 i gynnwys unrhyw sôn am ffiniau llywodraeth leol arfaethedig o gwbl. Mae cyflwyno'r gair 'caiff' wedi'i ddehongli i awgrymu 'efallai na chaiff' yn yr hyn a fu gynt yn ardal lwyd. Mewn gwirionedd, mae'n ymddangos bod y Comisiwn wedi penderfynu bod yn rhaid i gymal sydd wedi'i gynllunio i fod yn ganiataol, weithredu yn ogystal i atal y Comisiynwyr rhag cymryd agwedd fwy pragmatig ac ymarferol at ystyried 'cymunedau buddiant'!

Oherwydd ni chafodd y ffiniau lleol newydd yn Abertawe eu creu gan Offeryn Statudol cyn dyddiad cychwyn yr Arolwg hwn ar 2 Mawrth 2020, yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw hyn gorfodi Comisiynwyr Cymru i ddiystyru'n llwyr eu rhinweddau fel cymunedau buddiant o dan Reol 5; maent wedi'u llunio o unedau sy'n bodoli fel dosbarthiadau etholiadol yn y gofrestr etholiadol ar gyfer y Dyddiad Penodol ac felly'n addas i'w defnyddio o dan Reol 2.

Rwy’n dadlau mai bwriad y senedd oedd gosod ‘darpar’ wardiau yn yr union un sefyllfa â wardiau a oedd yn bodoli ar y dyddiad cychwyn; gan ddeall mai wardiau fu’r prif flociau adeiladu a ddefnyddiwyd gan gomisiynau ffiniau, a bod Rheol 2 yn ei gwneud yn amhosibl defnyddio unrhyw ffiniau lle nad oes data cadarn ar gael ynghylch niferoedd yr etholwyr. Yn fyr, bwriad y senedd oedd osgoi’r union sefyllfa druenus y mae’r Cynigion Diwygiedig yn ei chreu bellach yn Abertawe (ac yn ôl pob tebyg, mewn mannau eraill yng Nghymru hefyd).

Fodd bynnag, mae’n amlwg bod y Comisiynwyr eisoes wedi penderfynu ar y dehongliad a ffefrir ganddynt; felly mae’n ofynnol i mi ddatblygu’r achos o blaid fy ngwrthgynnig o dan Reol 5 yn unig, ar y sail bod y dosbarthiadau etholiadol hyn hefyd yn disgrifio cymunedau sy’n rhannu cysylltiadau lleol sylweddol sy’n cael eu torri neu sy’n profi anghyfleustra wrth eu cynnwys mewn etholaethau ar wahân.

Yn fy nghyflwyniad i’r ymgynghoriad cyntaf, trafodais sail y ‘dybiaeth wardiau cyfan’ a’r anawsterau o ran cymhwyso hyn yn Abertawe ochr yn ochr â Rheol 2. Mae dull cyffredinol ‘datrysiadau wardiau cyfan yn unig’ yn arwain at annhegwch posibl mewn ardaloedd trefol fel hen Ddosbarth Abertawe lle mae nifer cyfartalog yr etholwyr mewn wardiau yn llawer mwy. O ystyried y trothwy o 5 y cant yn Rheol 2, mae wardiau â dros 8,000 yn achosi problemau penodol; yn enwedig pan fo’n rhaid cyfuno anheddiad trefol, poblog â chefnwlad penrhyn fel sy’n angenrheidiol yn ardal awdurdod unedol Abertawe.

Gan ddychwelyd at gyflwyniad y Comisiynwyr i’w Cynigion Diwygiedig (Pennod 2, pwynt 17, tudalennau 12/13)

***Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi’u diffinio’n dda ac y mae dealltwriaeth dda ohonynt. Yn gyffredinol maen nhw’n dynodi ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau pan fydd yn ddymunol rhannu wardiau etholiadol, yn enwedig wrth ystyried yr holl ffactorau a amlygwyd yn Rheol 5, er nad yw ein cynigion diwygiedig yn rhannu unrhyw wardiau etholiadol.***

Yn fy nghyflwyniad cyntaf, awgrymais dri chwestiwn a allai lywio’r Comisiynwyr Ffiniau yng Nghymru wrth iddynt ystyried rhannu wardiau. Yn gyntaf, a oes dewis arall ar gael nad yw’n rhannu ward ac sydd yr un mor foddhaol? Os mai’r ateb yw Oes, mae’n bosibl y gwrthodir rhannu ward. Yn ail, a yw’r cynnig yn rhannu’r nifer lleiaf posibl o wardiau neu a yw’n gwneud hynny’n helaeth? Yn gyffredinol, mae rhannu wardiau ar raddfa fawr yn annymunol. Yn drydydd, a yw ward sy’n cael ei rhannu yn cynnwys linellau clir ar gyfer ei rhannu? Os mai’r ateb yw Nac Ydi, ond mae angen rhannu wardiau er budd y cynllun ehangach, dylid ystyried rhannu ward wahanol.

Gan gymryd y rhain yn eu tro, nid yw’r dewis arall, sef hepgor ward Glandŵr, yn ymddangos yr un mor foddhaol gan ei fod yn tarfu mwy ar gysylltiadau lleol nag opsiwn y gwrthgynnig o rannu wardiau. Yn wir, mae’r gwrthgynnig yn awgrymu rhannu technegol ar gyfer tair ward segur; ond mae’n gwneud hynny er budd dod â chymunedau sy’n rhannu cysylltiadau lleol yn ôl at ei gilydd, ac mewn amgylchiadau lle mae llinellau ymrannu clir a fyddai’n cael eu derbyn i raddau helaeth gan fwyafrif mawr o aelodau’r cymunedau dan sylw. Yn y pen draw, ar sail Rheol 5, rwy’n dadlau bod hyn yn well nag uno Glandŵr ag etholaeth sydd yr ochr arall i Afon Tawe, a gynigiwyd gan y Comisiynwyr, sy’n torri cysylltiadau llawer pwysicach â chanol Abertawe.

Gobeithiaf y bydd y Comisiynwyr yn ystyried y pwyntiau hyn yn ofalus ac yn cytuno bod Abertawe'n cyflwyno aches arbennig, sy'n cyfiawnhau dull gweithredu pwrpasol ac arloesol.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

**BCW-10525 / [redacted] / Caerdydd**

Nid welaf unrhyw broblem â'r cynnig yn fy ardal i.

Rwy'n synnu mai dyma'r cyntaf i mi glywed amdano, serch hynny.

**BCW-10526 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Rwy'n siomedig dros ben ynghylch y newidiadau arfaethedig sy'n cyfuno ward Penprysg ag ardal cyngor RhCT. Yn hanesyddol, bu Penprysg yn gysylltiedig â Phencoed ac yn ardal CBSP/cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Mae pobl ward Penprysg yn teimlo cysylltiad â Phen-y-bont ar Ogwr ac mae llawer yn gweithio ac yn byw yn yr ardal, ac mae ein hychwanegu at RhCT yn dangos diffyg cynllunio a rhagweld a fyddai'n dileu blynyddoedd o gydweithrediad a pherthnasoedd lleol sydd eisoes wedi'u meithrin dros yr un cyfnod. Byddwn yn eich annog yn gryf i ailystyried y cynnig hwn gan fod opsiynau mwy hyfyw, yn ddaearyddol ac yn strwythurol, a fyddai'n amlwg pe defnyddir synnwyr cyffredin. Er fy mod yn deall yr angen i ail-barthu cynghorau, nid wyf yn credu mai ein gosod ni â RhCT yw'r ffordd orau o gyflawni'r nodau datganedig.

**BCW-10527 / [redacted] / Caerdydd**

I bwy bynnag a fynno wybod.

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher 19 Tachwedd.
Ysgrifennaf ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i etholaeth De Caerdydd a Phenarth.
Rwy'n gwrthwynebu'r symudiad hwn. Mae cysylltiadau agos rhwng ward Cathays â'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown. Er enghraifft, rwy'n byw ar ffin ward Plasnewydd ond mae fy mab yn mynd i ysgol sydd ychydig dros y ffin yn ward Cathays. Yn yr un modd, rydym yn addoli mewn eglwys yn Cathays ac yn aml yn siopa yn Crwys Road.
Dylai'r Comisiwn ddychwelyd at y cynnig gwreiddiol, sef bod ward Cathays yn etholaeth Canol Caerdydd / Dwyrain Caerdydd, a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.
Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac mae'n golygu mai dim ond dwy ward sy'n symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na'r pedair sy'n cael eu cynnig yn y cynigion diwygiedig.
Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny o fewn yr un sedd Seneddol ers dros 60 mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn, yn ei arolygon blaenorol ers 2010, na weithredwyd, erioed wedi ceisio gwahanu Cathays a Phlasnewydd.
Deallaf fod y Comisiwn wedi derbyn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn, ond derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan breswylwyr yng Nghaerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown, o fewn cymuned ehangach y Rhath, yn yr un etholaeth.
Derbyniaf fod Trowbridge yn ward heb fynediad ffordd uniongyrchol i'r Sblot. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cynnig yr union un sefyllfa yn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes fel rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r datrysiad arfaethedig yn sedd newydd Rhondda.
Nid oes gan Cathays unrhyw gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth – wedi'u hynysu oddi wrth wardiau trefol eraill canol y ddinas sydd â phoblogaeth gyfyngedig, ac mae ei gosod o fewn yr un etholaeth â Dinas Powys a Sili yn gwbl hurt ac ni fydd hynny'n hawdd ei ddeall ymhlith yr etholwyr.

Fodd bynnag, mae gan Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown lawer o gysylltiadau cymunedol - er enghraifft, y rhai rwyf wedi'u hamlinellu uchod, ond hefyd:

- Mae mwyafrif llethol y boblogaeth myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd wedi'u lleoli yn Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, ac mae neuaddau preswyl gerllaw yn Cathays a Phlasnewydd.
- Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod wardiau Cathays a Phlasnewydd wedi'u cydblethu gymaint fel bod rheolau cynllunio wedi'u pasio â'r unig nod o ymdrin â thai amlfeddiannaeth a byrddau asiantaethau gosod tai yn y ddwy ward hyn (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/).
- Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.
- Mae'r plant mewn ysgolion cynradd yn Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (a leolir ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (a leolir yng Nghyncoed).

- Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac, yn wir, Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod preswylwyr yn y tair ward etholiadol yn ystyried eu bod yn rhan o gymuned y Rhath sy'n canolbwyntio ar ardaloedd siopa Crwys Road, Albany Road a City Road.
- Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a rennir rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac fe'u parchwyd yn briodol gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.
- Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi'i threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)
- Mae dalgylchoedd meddygfeydd Meddygon Teulu hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg cyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth yma, gobeithiaf y bydd y Comisiwn yn gwrthdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i'r cynigion cychwynnol fel y'u cyhoeddwyd.

[redacted]

**BCW-10528 / [redacted] / Y Rhyl**

**Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol – Cynigion Cychwynnol**

*"Wrth ddatblygu ei gynigion, mae'r Comisiwn, lle bo modd, wedi rhoi ystyriaeth i ffiniau Seneddol a llywodraeth leol presennol. Mae hefyd wedi ceisio osgoi neu leihau torri cysylltiadau lleol. Ar brydiau, mae'r Comisiwn wedi rhoi sylw i ystyriaethau daearyddol arbennig."*

*Tud.4 Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol – Cynigion Cychwynnol*

**1.** Mae gan gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) oblygiadau difrifol i Etholaeth bresennol Dyffryn Clwyd ac i dref y Rhyl yn arbennig.

**2.** Wrth gyflwyno ei gynigion, mae CFfG wedi ailadrodd y gofynion rhifiadol sy'n achosi i Gymru golli cyfran fawr o'i seddau presennol. Caiff etholaethau amrywio rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr. Mae gan Ddyffryn Clwyd tua 56,000 o bleidleiswyr ar hyn o bryd.

**3.** Fodd bynnag, wrth osod y dasg i CFfG baratoi cynigion ar gyfer newid, mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (Atodlen 2, Rheol 5) yn amodi y caiff ystyried y ffactorau canlynol, ochr yn ochr ag ystyriaethau rhifiadol:

a) Ystyriaethau daearyddol arbennig;
b) Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol;
c) Ffiniau etholaethau presennol;
ch) Yr anghyfleustra y gallai unrhyw newidiadau ei greu; a
d) Sut mae'r holl ystyriaethau uchod yn rhyngweithio.

**4.** Er gwaethaf ei ddatganiad uchod ei fod wedi ystyried cysylltiadau lleol a ffiniau presennol, mae'r Comisiwn wedi datgan ei *bolisi* yn glir:

"Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Reol 2."

*Tud.5 Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol – Cynigion Cychwynnol*

**5.** Yn fy marn i, nid yw polisi'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r ffactorau a amlinellir yn Rheol 5 wrth benderfynu ar ei gynigion ar gyfer 2023.

### *6. Ystyriaethau daearyddol arbennig*

Mae Rheol 5 yn crybwyll maint, siâp a hygyrchedd yr etholaeth arfaethedig. Mae cynigion 2023 yn cyfeirio'n benodol at nodweddion ffisegol fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd. Mae'r Rhyl ar lannau dwyreiniol ac aber Afon Clwyd. Mae'r afon yn rhwystr tiriogaethol yn ogystal â ffisegol, gan wahanu'r dref oddi wrth gymunedau i'r gorllewin. Yn y Rhyl, mae'r cyfeiriad teithio wastad wedi bod tua'r dwyrain yn hytrach na thua'r gorllewin – mewn sawl ffordd.

Mae hygyrchedd ffisegol ar ffurf cysylltiadau trafnidiaeth – y dibynnir arno'n fawr yn y cynigion – wedi'i gyfyngu'n bennaf i lwybrau arfordirol sy'n gyffredin i bob cymuned ar hyd arfordir gogledd Cymru. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r term 'cydlynol' i gyfiawnhau ei gynigion, gan ddibynnu'n gyffredinol ar gysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da. Nid yw uno Bae Colwyn â'r Rhyl yn fwy 'cydlynol' – a byddem yn dadlau ei fod gryn dipyn yn llai felly – nag uno'r Rhyl, Prestatyn a'r Fflint.

### *7. Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol*

Mae'r cynigion yn argymell haneru ardal bresennol Cyngor Sir Ddinbych, gan symud rhan ohoni i Glwyd a'r gweddill i Ddelyn. Mae'n ymddangos i mi fod hyn yn ymarfer bras i gyflawni'r niferoedd 'iawn' heb ystyried y ffactorau a grybwyllir yn Rheol 5.

Cyn 1974, roedd y Rhyl a Phrestatyn wedi'u cynnwys gyda'i gilydd yn ardal Cyngor Sir y Fflint ac yn mwynhau cystadleuaeth iach fel cynghorau dosbarth annibynnol. Ar ôl 1974, cyfunwyd y ddau ddosbarth trefol, ynghyd â Llanelwy, i ffurfio Cyngor Bwrdeistref Rhuddlan o fewn Sir newydd Clwyd. Rhaid cyfaddef bod Cyngor Sir anffodus Clwyd wedi ymestyn i Fae Colwyn, ond mae unrhyw awgrym bod cymuned o fuddiannau rhwng dosbarthiadau Colwyn a Rhuddlan yn gyfeiliornus.

Mae'r cysylltiadau lleol rhwng y Rhyl a Phrestatyn yn amlwg i bawb eu gweld. Mae'r Rhyl a Phrestatyn wastad wedi bod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau ac ailgyfanheddu i deuluoedd o ogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

Mae'r ddwy dref wedi tueddu i edrych tua'r dwyrain yn hytrach na'r gorllewin. Mae hyn yn wir o ran teithio, masnach, cyflogaeth a gweithgareddau diwylliannol. Maen nhw'n rhannu ystod eang o gyfleusterau addysg, hamdden a chelfyddydau.

Byddai awgrymu partneriaeth sy'n ymestyn cyn belled i'r gorllewin â Bae Colwyn yn gosod dyfodol y Rhyl mewn twristiaeth ac amaethyddiaeth. Byddai'n well gennyf weld ein dyfodol mewn twristiaeth a swyddi gweithgynhyrchu o ansawdd uchel. Byddai lleoli'r Rhyl a Phrestatyn yn etholaeth gymdogol Delyn yn darparu canolbwynt twristiaeth arwyddocaol yn yr etholaeth honno.

Ar hyn o bryd, mae gan y Rhyl ddwy o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is – LSOAs) yng Nghymru, yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru gyfan diwethaf. Mae chwech o'i LSOAs yn y 10% o ardaloedd mwyaf

difreintiedig yng Nghymru. Rwy'n ofni, mewn etholaeth newydd Clwyd, y byddai buddiannau'r Rhyl mor groes i rai cefnwlad yr ardal honno, sy'n wledig yn bennaf, fel na fyddai preswylwyr y Rhyl a'u pryderon yn cael eu cynrychioli. Gallai tynged debyg wynebu'r nifer o wardiau gwledig y cynigir eu cynnwys yn etholaeth newydd Delyn.

Deuaf i'r casgliad fod gan y Rhyl fwy yn gyffredin yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol â Phrestatyn, Delyn a gogledd-ddwyrain Cymru nag â'i chymdogion i'r gorllewin.

***Casgliad***

Byddai'n well gennyf petai'r Rhyl yn aros wedi'i chysylltu â Phrestatyn mewn unrhyw drefniadau newydd ac felly'n cael ei chynnwys mewn etholaeth newydd Delyn.

**BCW-10529 / [redacted] / Bae Colwyn**

Mae'r enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth newydd, sef Gogledd Clwyd, yn gwbl amwys gan fod enw sir Clwyd wedi diflannu blynyddoedd yn ol. Mae afon Clwyd dal yn bod wrth gwrs ac mae'r afon yn llifo drwy ardal ddwyrieniol yr etholaeth arfaethedig, ond nid yw hyn yn adlewyrchu ardal Colwyn ac o ran hynny Abergele o gwbl. Y cymunedau sydd yn ffurfio ardal Cyngor Tref Bae Colwyn a Mochdre yw'r ardal fwyaf poblog o'r etholaeth arfaethedig ac roedd Abergele'n rhan o'r hen Gyngor Colwyn. Nid yw'r enw 'Gogledd Clwyd' yn berthnasol ac yn gywir o ysturied yr ardal i gyd.

Er mwyn adlewyrchu'r ardal yn deg, dylai enw'r etholaeth fod yn Colwyn a Chlwyd. Byddai hyn hefyd yn gwbl dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn osgoi'r angen i gael enw yn y ddwy iaith.

**BCW-10530/ [redacted] / Abertawe**

Mae’r newidiadau arfaethedig presennol i’r ffiniau ar gyfer Dwyrain Abertawe, Castell-nedd Port Talbot ac ati, yn annerbyniol…. nid newidiadau bach yw’r rhain, ac nid ydynt yn gwneud unrhyw synnwyr. Mae fel petai rhyw blentyn yn eistedd gyda thaenlen a rhywfaint o ddata am y boblogaeth wedi symud ffiniau i gyfateb i’r rheolau newydd, heb unrhyw ymgais i gadw cymaint o’r hen etholaeth â phosibl. Ystyriaf fod y cynigion hyn mor wael fel na allaf ddeall sut y caniatawyd iddynt gyrraedd y cam hwn.

**BCW-10531 / [redacted] / Betws-y-Coed**

Mae newid y ffiniau fel y gwelir yn y map yn weithred hollol haerllug a diangen. Dylid ystyried aetholaethau yng nghyd-destyn cymdeithasau sy'n rhannu anghenion cyffelyb er mwyn gallu cynnal llywodraeth lleol llwyddianus a grymus. Mae'r etholaeth Bangor Aberconwy y rhy fawr o lawer ac yn mynd i fod yn amhosib gweithredu er lles y boblogaeth waanol sydd yn bodoli o fewn ei ffiniau. Gwrthwynebaf eich ymdrech i leihau grym y bobl a rhoi llai o lais i Gymru yn Sansteffan. Gweithred ysgeler wedi ei chynllunio gan bwysigion hunan gyfiawn yn Llundain, gyda chefnogaeth Cymry di asgwrn cefn yw hyn i leihau ein dylanwad ar bolisiau unwaith eto

**BCW-10532 / [redacted] / Aberdâr**

Rwy’n cytuno’n llwyr â’r cynigion newydd ac yn credu eu bod yn hir-ddisgwyliedig.

**BCW-10533 / [redacted] / Hwlffordd**

Nid oes gan Dyddewi a de Sir Benfro lawer yn gyffredin yn hanesyddol nac yn ieithyddol, ac mae’n rhyfedd bod y ward hon wedi cael ei hychwanegu at etholaeth ‘Canol a De Sir Benfro’, sy’n deitl anodd ei gredu, pan fyddai’n well o lawer ei chynnwys yn etholaeth Preseli/Ceredigion.

**BCW-10534 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Rwy’n tybio na fydd etholaeth Ogwr. Os felly, dylai Pencoed fod ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac nid Rhondda Cynon Taf.

**BCW-10535 / [redacted] / Llandrillo-yn-Rhos**

Mae gan Llandrillo-yn-Rhos fwy o gysylltiad â Bae Penrhyn, Llandudno ac ardal arfaethedig Bangor nag ardal arfaethedig newydd Abergele, y Rhyl ac ati. Byddai Coleg Llandrillo Menai sy'n cynnwys Coleg Llandrillo, sydd wedi'i leoli yn Llandrillo-yn-Rhos, yn cael ei wahanu o'r colegau grŵp eraill. A fyddai hyn yn golygu newidiadau o ran cefnogaeth neu gyllid i'r coleg lleol? Gallai cysylltiadau â Phrifysgol Bangor fod mewn perygl.

Ar wahân i gysylltiadau emosiynol a theuluol yn yr ardal, pa effaith allai hyn ei chael ar wariant iechyd, trafnidiaeth a seilwaith?

**BCW-10536 / [redacted] / Resolfen**

Pam cyfuno rhan o Abertawe a Chastell-Nedd? Mae Castell-Nedd yn gwbl annibynnol, a ffactorau sy’n effeithio Abertawe yn amherthnasol i drigolion yr ardal (a vice versa).

Syniad twp, heb unrhyw synnwyr cyffredin yn rhan ohono. Nid wyf yn cefnogi’r newid hwn.

**BCW-10537 / [redacted] / Caerdydd**

Mae hyn wedi cael ei rannu a'i gyfathrebu'n wael. Nid oes unrhyw bresenoldeb i'r cyhoedd sylweddoli bod ymgynghoriad yn digwydd na newidiadau’n cael eu gwneud.

**BCW-10538 / [redacted] / Ffynnon Taf**

A fydd gogledd Caerdydd yn parhau â'r gwasanaethau y mae RhCT wedi'u darparu i Ffynnon Taf? E.e. yr holl finiau baw cŵn ac amseroedd ymateb gwych i faterion a adroddir fel goleuadau stryd ddim yn gweithio?

Mae'n ymddangos yn drueni gwahanu Ffynnon Taf a Gwaelod y Garth gan fod ganddynt gysylltiad cryf.

Efallai bod angen ymuno aneddiadau i'r gogledd o Gaerdydd (Pentrych, Gwaelod y Garth, Ffynnon Taf, Tongwynlais)?

**BCW-10539 / [redacted] / Llanidloes**

Rwy’n falch clywed bod yr ymgynghoriad cychwynnol yn cynnig cadw Maldwyn yn gyfan. Nid yw cynigion i rannu'r sir yn rhoi unrhyw ystyriaeth i gydlyniad cymunedol.

**BCW-10540 / Craig Williams AS / Y Trallwng**

Rwy'n ysgrifennu atoch i gefnogi'r adolygiad ffiniau arfaethedig terfynol ar gyfer Etholaeth Seneddol newydd Sir Drefaldwyn a Glyndwr

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod Sir Drefaldwyn wedi cael ei chynrychioli mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ers 1542. Er y byddwn yn dymuno i'r etholaeth aros fel y bu erioed, rwy'n derbyn pwysigrwydd bod etholaethau Seneddol fod yn gymharol gyfartal o ran maint y boblogaeth. Mae cynnal Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd o fewn sedd fwy Sir Drefaldwyn a Glyndwr yn cydnabod yr ardal fel sedd sir a Seneddol hanesyddol, gan hefyd fodloni paramedrau'r adolygiad.

Rwy'n croesawu'r newidiadau a awgrymir gan y Comisiwn Ffiniau, yn wahanol i gynigion blaenorol a oedd yn bygwth uniondeb y rhanbarth, gan y byddai rhannu cymuned glòs yn cymhlethu materion. Bydd sicrhau bodolaeth barhaus Sir Drefaldwyn drwy ymgorffori rhannau o Dde Clwyd yn helpu i ailgydbwyso maint yr etholaeth i sicrhau bod pob etholaeth yng Nghymru yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn well.

**BCW-10541 / [redacted] / Llandudno**

Rwyf mor falch fod penrhyn Creuddyn - Llandudno yn cael ei ddychwelyd i'r hyn a arferai fod yn nwyrain Gwynedd fel y'i dewiswyd gan Esgob Bangor ganrifoedd yn ôl. Bydd yr etholaeth newydd awgrymedig yn rhwystro'r dryswch rhwng tref a sir Conwy ac ni fydd yn rhaid i ni gefnogi dwyrain Conwy yn ariannol fel yr ydym wedi gwneud ers sefydlu Conwy.

**BCW-10542 / [redacted] / Pencoed**

A oes rhyw blentyn 5 oed â chreon wedi llunio'r map hwn ar gyfer tynnu Pencoed o Ben-y-bont ar Ogwr?

Llanast. Dylech fod yn edrych ar gymunedau sy'n perthyn yn agos i'w gilydd, nid defnyddio nifer y preswylwyr yn unig i wneud i'r ffigyrau weithio.

**BCW-10543 / Sioned Williams AS / Pontardawe**

Mae'r ymateb hwn yn delio â'r cynnig penodol ynglŷn â wardiau Cwm Tawe sydd yn etholaeth bresennol Castell-nedd.

Dylai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru edrych eto ar y cynigion diwygiedig fyddai'n golygu y byddai cymunedau Cwm Tawe sydd ar hyn o bryd yn dod o dan etholaeth Castell-nedd yn rhannu AS â threfi a phentrefi Brycheiniog a Maesyfed. Byddai'r sedd newydd hon yn ymestyn o Drebannws a Phontardawe i Rhaeadr Gwy a Llanandras.

A minnau'n un o drigolion Alltwen, a'i AS rhanbarthol, credaf fod y newidiadau a gynigiwyd i'r gynrychiolaeth ar gyfer y wardiau hyn yng Nghwm Tawe yn gwbl annerbyniol.

Fe gawsoch ymatebion di-ri yn eich cyfnod ymgynghori diwethaf ynglŷn â pham mae'r cynnig hwn yn tanseilio cynrychiolaeth ddemocrataidd, yn groes i'ch meini prawf cyhoeddedig eich hun, ac yn bwysicaf oll, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i'r bobl y dylech chi fod yn eu gwasanaethu fel corff cyhoeddus ymgynghorol a ariennir gan y Llywodraeth. Rhaid i ymgynghoriad fod yn ystyrlon. Wrth anwybyddu'r ymatebion, rydych chi'n atgyfnerthu'r amgyffrediad nad oes gan bobl unrhyw lais yn y ffordd maen nhw'n cael eu llywodraethu. Mae hyn yn gymdeithasol beryglus, yn wleidyddol anonest ac yn niweidiol i ddemocratiaeth.

Bydd gosod trefi a phentrefi clos, ôl-ddiwydiannol Cwm Tawe gyda wardiau pell, ac yn hanfodol wahanol o ran diwylliant, natur economaidd-gymdeithasol, cymeriad a daearyddiaeth ym Mrycheiniog a Maesyfed - a wasanaethir gan heddlu, awdurdod lleol, a bwrdd iechyd gwahanol a heb gysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol nac unrhyw gysylltiadau rheilffordd - yn gwneud gwasanaethu'r cymunedau hyn yn effeithiol yn amhosibl.

Wrth ffurfio eich cynigion, nodoch eich bod yn gallu ystyried ystyriaethau daearyddol a rhwystrau fel mynyddoedd, "hygyrchedd" etholaeth, ffiniau llywodraeth leol, natur ieithyddol cymunedau yn ogystal â "chysylltiadau lleol" a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau ac "anghyfleustra" newidiadau.

Mae'r cynigion ar gyfer wardiau Cwm Tawe, Trebannws, Pontardawe, Alltwen, Ystalyfera, Godre'r Graig, Rhos, Cwmllynfell, Gwauncaegurwen, yn gweddu i *bob un* o'r meini prawf hyn ac eto mae'r holl sylwadau sy'n amlygu hyn wedi cael eu hanwybyddu'n llwyr.

Ar yr adeg gythryblus hon mewn gwleidyddiaeth a gyda mwy a mwy o bobl angen cefnogaeth yn ein cymunedau, mae'n fwy hanfodol nag erioed fod gan bobl ffydd yn y broses wleidyddol a'r system cynrychiolaeth ddemocrataidd. Rwy'n eich annog i ailystyried y cynnig hwn gan fy mod yn credu y bydd yn lleihau mynediad at y gynrychiolaeth honno ac yn niweidio ffydd pobl yn y broses ddemocrataidd ac o ran dilysrwydd eu cynrychiolaeth.

Onid creu etholaeth o gymunedau diwylliannol ac economaidd debyg, gyda chysylltiadau lleol cryf rhwng y cymunedau a'r trefi wedi'u cynnwys yn yr etholaeth

arfaethedig dylai’r nod fod. Pan na fydd gan etholaethau’r math hwn o gysylltiadau, byddant yn cynhyrchu cynrychiolwyr anatebol.

Mae'n anochel y bydd yr anghydbwysedd enfawr ac amlwg yn y cynnig hwn yn symud y ffocws o anghenion cymunedau Cwm Tawe a bydd llawer o bobl yn datgysylltu o'r broses ddemocrataidd. Mae'n broblem sylweddol mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol bod gan bobl ddiffyg fuddsoddiad yn eu llywodraethu eu hunain. Bydd y cynnig hwn yn gwaethygu'r broblem hon a ddylai fod yn rhywbeth rydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef, nid ei waethygu, er mwyn democratiaeth.

Mae natur gymhleth y cynnig hwn eisoes wedi ennyn sinigiaeth ac anobaith. Dylai etholaeth wleidyddol atgyfnerthu hunaniaeth a rennir, felly rhaid i'r etholaeth honno fod yn ystyrlon fel lle cydlynol yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol. O'r herwydd, byddai cyfuno wardiau Cwm Tawe gydag etholaeth sydd â chysylltiadau ag ardaloedd Castell-nedd neu Abertawe, neu gymunedau cymoedd Castell-nedd, Aman neu Dulais neu leoedd fel Clydach, Treforys, Pontarddulais ac ati yn osgoi'r canlyniad hwn. Rwy'n eich cyfeirio at y cyflwyniad a wnaed gan Blaid Cymru ar ddewisiadau eraill.

Gobeithio y byddwch yn cymryd sylw bod tanseilio effeithiolrwydd cynrychiolaeth ddemocrataidd fel hyn felly yn foesol anghywir ac yn fy marn i, yn weithred o esgeulustod gan y Comisiwn Ffiniau. Os nad oes newidiadau ar ddod, yna bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu cyfiawnhau.

## BCW-10544 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr

Pam fod rhaid i Bencoed ddod yn rhan o RhCT, mae wedi bod yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr ers blynyddoedd.

Dydw i ddim yn deall pam fod rhaid ei symud, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr ac ni fydd yn stopio yno... credwch chi fi.

## BCW-10545 / Hefin David AS / Caerffili

Annwyl Syr/Madam

Rwy'n ysgrifennu i adleisio sylwadau fy nghydweithiwr Wayne David AS, i gefnogi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') yn ymwneud ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Rwy'n werthfawrogi bod y Comisiwn yn amlwg wedi gwrando ar ymchwydd o farn gyhoeddus yng Nghwm Rhymni isaf yn erbyn ei gynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gysylltu cymunedau Basn Caerffili ag etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Rydych wedi cydnabod bod yr awgrym hwn yn anghynaliadwy oherwydd ei fod wedi ceisio cysylltu dwy ardal nad oes ganddynt lawer o gysylltiadau daearyddol, cyfathrebu, cymdeithasol, hanesyddol, a diwylliannol.

Rydych chi hefyd wedi cydnabod ei bod hi'n llawer mwy synhwyrol, ac yn unol â barn y cyhoedd, i gynnal y cysylltiadau rhwng Basn Caerffili a chyrion y Cymoedd i'r gogledd. Ar yr un pryd, rydych wedi cydnabod bod cymoedd cyfagos Sirhywi ac Ebwy yn cynnig gogwydd mwy naturiol tuag at ran orllewinol Casnewydd.

Mae'r cynigion diwygiedig wedi cael derbyniad gwresog gan y llu o unigolion a'r grwpiau cymunedol yn y rhan fwyaf o etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi cyflwyno sylwadau i chi.

Yn gywir

Hefin David AS
Aelod o'r Senedd, Caerffili

## BCW-10546 / Alex Davies-Jones AS / Pontypridd

Helo

Hoffwn roi adborth ffurfiol ynghylch ailenwi etholaeth Pontypridd i Bontypridd + Llantrisant. Teimlaf fod hyn yn gwneud y synnwyr mwyaf gyda'r wardiau a gafwyd yn rhan dde-orllewinol yr etholaeth. Mae eu cymuned yn cyd-fynd llawer mwy â Llantrisant, a hanes yr ardal honno, nag yw hi â chanol tref Pontypridd. Mae hyn hefyd yn gwneud synnwyr o safbwynt trafnidiaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori, ac os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch gen i, rhowch wybod i mi wybod.

Dymuniadau gorau,

Alex

**Alex Davies-Jones AS**
**Labour Member of Parliament for Pontypridd/Aelod Seneddol Llafur dros Bontypridd**

## BCW-10547 / [redacted] Cyngor Sir Fynwy / Sir Fynwy

Gweler yn atodedig gynrychiolaeth gan Gyngor Sir Fynwy sy’n ymwneud â'r Adolygiad Ffiniau Seneddol.

**Cofion Cynnes,**

[redacted]
*Rheolwr Democratiaeth Leol /* Local Democracy Manager
*Cyngor Sir Fynwy /* Monmouthshire County Council

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

[redacted]

Annwyl Syr / Fadam

**Adolygiad Ffiniau Seneddol 2023 – Cynigion Sir Fynwy**

Mewn cyfarfod o'i gyngor llawn ar 27 Hydref 2022, ystyriodd Cynghorwyr gynnig mewn ymateb i'r Etholaethau Seneddol newydd i Gymru.

Cytunodd y Cyngor ar gynnig mewn cyfarfod Cyngor diweddar sydd fel a ganlyn:

> *'Mae'r Cyngor hwn yn:*
> *Cefnogi cynnig y Comisiwn Ffiniau o etholaeth seneddol Sir Fynwy sy'n cyd-ffinio â'r awdurdod lleol, ond mae'r Cyngor hwn yn gresynu at y cynnig gan y Comisiwn Ffiniau i leihau nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru.*

Hoffai'r Cyngor gyflwyno'r cynnig hwn i'r Comisiwn mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn gywir

[redacted]

Rheolwr Democratiaeth Leol
Cyngor Sir Fynwy

**BCW-10548 / [redacted] / Caerdydd**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn cyhoeddi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddydd Mercher, 19 Tachwedd.

Rwy'n ysgrifennu ynghylch y cynnig i symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth.

Rwy'n gwrthwynebu'r symudiad hwn. Mae cysylltiad cynhenid rhwng ward Cathays a'r wardiau sy'n weddill yng nghymuned ehangach y Rhath; sef Pen-y-lan, Plasnewydd, Cyncoed ac Adamsdown.

Dylai'r Comisiwn ddychwelyd i'r cynnig gwreiddiol lle mae ward Cathays yng Nghaerdydd Canolog / Dwyrain Caerdydd a ward Trowbridge yn Ne Caerdydd a Phenarth.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni Rheol 5 y Comisiwn ac yn golygu mai dim ond dwy ward fydd yn symud o'u hetholaethau presennol, yn hytrach na symud pedair yn y cynigion diwygiedig.

Mae pob Comisiwn Ffiniau blaenorol wedi cydnabod y cysylltiadau agos rhwng Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan ac wedi sicrhau bod yr ardaloedd hynny wedi bod o fewn yr un sedd Seneddol am fwy na chwedeg mlynedd. Yn wir, nid yw'r Comisiwn yn ei adolygiadau blaenorol ers 2010 erioed wedi ystyried gwahanu Cathays a Phlasnewydd.

Derbyniodd y Comisiwn un cyflwyniad (gan breswylydd yn Altrincham) yn awgrymu'r newid hwn.

Derbyniodd y Comisiwn ddwsinau o ymatebion (gan drigolion Caerdydd) yn cefnogi cadw Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown o fewn cymuned ehangach y Rhath yn yr un etholaeth.

Rwy'n derbyn mai ward heb fynediad ffordd uniongyrchol i’r Sblot yw Trowbridge. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn yr un sefyllfa'n union o fewn ei gynnig diwygiedig ar gyfer Rhondda. Mae gan Y Sblot a Trowbridge ddegawdau o hanes fel rhan o'r un etholaeth, yn wahanol i'r ateb arfaethedig yn sedd newydd y Rhondda.

Nid yw symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth wedi cael ei grybwyll fel opsiwn yn ystod y cynigion blaenorol a'r prosesau ymgynghori. Mae ei gyflwyno fel 'fait accompli' ar y cam olaf yn ymddangos yn anonest, ac nid yn ysbryd y datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Shereen Williams, ar ddechrau'r broses.

“Rydym yn benderfynol o ddatblygu'r cynigion gorau posibl ar gyfer etholaethau newydd Cymru, ac rydym yn gwybod y gallwn ond wneud hynny trwy gael yr ymglymiad gorau erioed gan y cyhoedd. Mae hygyrchedd wrth wraidd beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni. Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i’w ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau ffiniau Cymru, ac rydym eisiau sicrhau y gall pawb fynegi eu barn."

Nid oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae ei lleoli o fewn yr un etholaeth â Dinas Powys a’r Sili yn hurt ac ni

fydd yr etholwyr yn ei ddeall. Fodd bynnag, mae llawer o gysylltiadau cymunedol rhwng Cathays, Plasnewydd, Pen-y-lan ac Adamsdown:

• Mae mwyafrif helaeth poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan, a neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.

• Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod wardiau Cathays a Phlasnewydd yn cydblethu cymaint bod rheolau cynllunio wedi'u pasio'n gyfan gwbl i gynnwys Tai Amlfeddiannaeth a byrddau asiantau gosod yn y ddwy ward hynny (https://www.landlordzone.co.uk/news/cardiff-to-vote-through-extension-to-large-student-area-hmo-licensing-scheme/)

• Mae dalgylch ysgol uwchradd Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd.

• Mae plant ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynd yn eu blaenau i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (yng Nghyncoed).

• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod trigolion y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sy'n canolbwyntio ar ardaloedd siopa Crwys Rd, Albany Rd a City Rd.

• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael eu rhannu rhwng Cathays a Phlasnewydd wedi eu hen sefydlu ac roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn yn eu parchu'n gywir.

• Trefnir yr Eglwys yng Nghymru o fewn ffiniau presennol Caerdydd Canolog (https://www.roath.org.uk/rcma/images/map.jpg)

• Mae dalgylchoedd meddygfeydd hefyd yn croesi ffiniau Cathays, Adamsdown, Pen-y-lan a Phlasnewydd gan rannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Diolch am ddarllen y cyflwyniad hwn. Ar ôl darllen y dystiolaeth hon, rwy'n gobeithio y bydd y Comisiwn nawr yn gwyrdroi'r cynigion diwygiedig ac yn dychwelyd i'r cynigion cychwynnol fel y’u cyhoeddwyd.

**BCW-10549 / [redacted] / Pont-y-pŵl**

Beth am leihau'r niferoedd ymhellach. Mae gan Dorfaen dreth cyngor anhygoel o uchel. Arweinydd cyngor gwych sydd â chefnogaeth gyfyngedig gan staff. Byth yn cael unrhyw ymateb ganddyn nhw nac unrhyw fater yn cael ei godi. Mae'n rhaid bod ffordd i fod yn well nag yw Torfaen. Gadewch i ni gael gwared ar haenau o fiwrocratiaeth.

## BCW-10550 / Geraint Davies AS / Gorllewin Abertawe

Annwyl Shereen Williams a Chomisiwn Ffiniau i Gymru

Diolch am eich cynigion ffiniau diwygiedig ar gyfer Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a Chanolbarth a Gogledd Abertawe ar 18 Hydref.

Rwy'n falch o gynnig **dau ddewis arall** (gan ddechrau o'ch cynigion ffiniau diwygiedig) sy'n adlewyrchu'n gryf eich rhesymu a'ch meini prawf ac

**A) Ail-uno Sgeti ac Uplands**
Mae'r wardiau hyn wedi'u cysylltu'n ddi-dor mewn daearyddiaeth ac mae ganddynt gymunedau rhyng-gysylltiedig agos.
Mae Uplands yn lletya llawer o'r rheiny sy'n gweithio ac yn astudio yn Sgeti yn y Brifysgol ac yn Ysbyty Singleton yno.
Yn yr un modd, mae nifer o'r cymunedau yn Sgeti yn teithio trwy Uplands i fynd i'r gwaith, gweithgareddau hamdden ac addoli yng nghanol a gogledd Abertawe.

**B) Cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth**
Mae'r cynigion hyn hefyd yn uno Mayals â wardiau eraill West Cross, Oystermouth a Newton sy'n ffurfio Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

### Dewis un

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe.
2. Symud Pontarddulais (4954), Llangyfelach (3946) a Phenllergaer (2553) – cyfanswm o **11,453** – o Ganol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol - Gŵyr a Gorllewin Abertawe 75,363 (2.6% yn uwch nag UKEQ) a Chanol a Gogledd Abertawe 71,229 (-2.9% yn is nag UKEQ).

**Dewis dau**

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i  Ganol a Gogledd Abertawe

1. Symud Pontarddulais (4954), Mawr (1438) a Phenlle'r-gaer (2553) - cyfanswm o **8,945** - o Chanol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol fyth o Gŵyr (wedi'i hailenwi) 72,855 (0.7% yn is na UKEQ) a Chanol Abertawe (wedi'i hailenwi) 73,737 (0.4% yn uwch na UKEQ).

Mae'r ddau ddewis arall yn parchu ffiniau'r etholaethau presennol yn agosach.

Mae **dewis un** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontardulais, Llangyfelach a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr
Mae **dewis dau** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontarddulais, Mawr a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr

Mae'r ddau ddewis hyn yn llai radical na chynigion diwygiedig Comisiwn Ffiniau I Gymru gan eu bod yn


- darparu ffit a chysylltiadau daearyddol mwy cydlynol
- cadw cysylltiadau cymunedol presennol yn gryfach a lleihau anghyfleustra
- datrys problem "hollti Sgeti o Uplands"
- uno Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth.


Rwy’n ffafrio dewis dau, gan ei fod

- yn creu sedd newydd 'Canol Abertawe' sy'n cynnwys Llangyfelach
- a sedd 'Gŵyr' newydd fwy cyson
- yn creu dwy etholaeth ill dwy o fewn un y cant o UKEQ 73,393 (sy'n galluogi mwy o amrywiaeth yn y boblogaeth).

Felly, rwy'n argymell yn gryf y dewisiadau eraill hyn. Mae mapiau canllaw o'r ddau ddewis arall isod er hwylustod i chi.
Dymuniadau gorau iawn

Geraint Davies AS
Gorllewin Abertawe




ALTERNATIVE 2
Pontardulais
Mawr
Llangyfelach
Penllergaer
SWANSEA CENTRAL
GOWER
Sketty

**BCW-10551 / [redacted] / Ffynnon Taf**

Rwy'n byw yn Ffynnon Taf. Rwy'n hapus i'm etholaeth symud cyn belled â bod ardal y cyngor a'r bwrdd iechyd hefyd yn cael ei symud i ogledd Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. O dan y cynlluniau presennol, dim ond ychydig bach o'r etholaeth fyddai yn RhCT a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morganwg. Mae hyn yn golygu na fydd yr Aelod Seneddol yn debygol o allu datblygu perthynas gref â'r cyrff hyn ac yn llai tebygol o allu deall a mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n codi ar gyfer poblogaeth fach RhCT o fewn yr etholaeth hon. Dylid cysylltu unrhyw newid i ffiniau seneddol â newid yn ardal cyngor a bwrdd iechyd

**BCW-10552 / [redacted] / Casnewydd**

Mae'r cynnig yn anymarferol ac nid yw'n cynnwys unrhyw ganolfannau poblogaeth mawr ac mae'n edrych fel yr hyn sy'n weddill ar ôl cymryd Caerffili a Dwyrain Casnewydd allan. Nid oes gan yr ardal anghyfartal hon gyfleuster meddygol ar wahân i feddygfeydd, dim prif gysylltiadau trafnidiaeth, dim gwasanaeth trên synhwyrol i gysylltu unrhyw ardaloedd o fewn yr etholaeth.

Mae'n edrych fel petai plentyn wedi tynnu'r llinell pan gafodd y cynllun gwreiddiol, gan gynnwys Caerffili a gorllewin Casnewydd, ei hepgor.

Nid oedd fersiwn Caerffili a Gorllewin Casnewydd yn wych, ond roedd yn well na'r llanast hwn. Pam cynnwys Dyffryn, Casnewydd gydag Islwyn, does dim yn eu cysylltu.

**BCW-10553 / [redacted] / Machynlleth**

Mae Machynlleth yn teimlo fel petai miliwn o filltiroedd i ffwrdd o ochr ddwyreiniol Powys a Wrecsam. Mae gennym gysylltiadau llawer agosach ag Aberystwyth a byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'w rhoi nhw yn yr un etholaeth.

**BCW-10554 / [redacted] / Rhuthun**

Mae'r ffiniau rhagbrofol newydd yn tynnu Pwllglas a nifer o bentrefi a chymunedau bychain eraill o dref Rhuthun

Y DREF HON YW EIN CANOLFAN GANOLOG. Mae ein gwahanu oddi wrth y ganolfan hon yn ein hynysu oddi wrth ein cymuned leol.

**BCW-10555 / Cyng. Elizabeth M Aldworth / Caerffili**

Annwyl Gomisiynwyr,

ETHOLAETH CAERFFILI.

Derbyniwch yr ohebiaeth hon, fel cefnogaeth lawn i gadw Caerffili yn sedd Etholaeth Seneddol. Mae hyn yn unol â'ch cynigion diwygiedig ac yn dilyn y cyflwyniadau a wnaed i gynnal y sedd hon.

Nid oedd y rheiny y bûm yn siarad â nhw ynghylch y cyfuniad hwn o blaid ymuno basn Caerffili â Wardiau yng Ngorllewin Casnewydd. Nid yw'r teitl Caerffili a Gorllewin Casnewydd yn gwneud synnwyr gan na ddylid ymuno Casnewydd, sy’n ddinas, â Bwrdeistref Sirol arall.

Diolch am gydnabod a nodi'r sylwadau a chaniatáu ymgynghoriad llawn.

Gwerthfawrogir hyn yn fawr.

Yn gywir,

Elizabeth M. Aldworth.

Maer Bwrdeistref.
[redacted]

WARD BEDWAS/TRETHOMAS O CBSC

2 Tachwedd 2022

**BCW-10556 / [redacted] / Anhysbys**

Nonsens llwyr. Sut gallwch chi rannu Cwm Cynon.
Mynydd uchel rhwng Merthyr Tudful a Chwm Cynon. Cymunedau gwahanol iawn.
Diffyg dealltwriaeth lwyr o anghenion a gofynion gwahanol y cymoedd.
Ni ddylai fod yn ymwneud â rhifau ac ystadegau bob tro!

Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL

https://www.bcw-reviews.org.uk/

[redacted]

[redacted]

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Rwy’n pryderu’n fawr am y cynigion diwygiedig i ddatgymalu etholaeth Cymoedd Islwyn. Byddai rhan fwyaf yr etholaeth yn cael ei hychwanegu ati, ac yn cael ei llyncu gan Orllewin Casnewydd. Byddai wardiau eraill yn cael eu tynnu oddi wrth eu cymdogion yn Islwyn ac yn cael eu dyrannu mewn mannau eraill.

Byddai’r cynigon hyn yn rhwygo cymunedau sydd â chysylltiadau hanesyddol, gan ddinistrio ein hunaniaeth hirsefydlog a’n treftadaeth a rennir. Maen nhw’n diystyru daearyddiaeth naturiol cymuned y Cymoedd ac yn dod â chymunedau gwahanol iawn a digyswllt at ei gilydd ar draws etholaeth newydd arfaethedig, sef Islwyn a Gorllewin Casnewydd. Mae'r ddwy ardal yn wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd gwahanol ac ni fydd eu cyfuno yn gwasanaethu Islwyn na Gorllewin Casnewydd yn dda.

Rwy’n eich annog i ddychwelyd i'r cynigion blaenorol sy’n cadw etholaeth Islwyn.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10558 / [redacted] / Johnstown**

Mae’r cynnig yn ddirgelwch mawr. Mae dweud nad oes gan Johnstown gysylltiadau cryf â Wrecsam yn anghywir. O gyn belled yn ôl â'r 1900au cynnar, roedd lein dramiau yn rhedeg rhwng Johnstown a Wrecsam a chafodd y siediau yn Johnstown a oedd yn gartref i'r tramiau ond eu dymchwel yn yr 1980au neu'r 1990au pan adeiladwyd tai newydd ar y safle. Oni ddylai hun yn unig ddangos bod cysylltiadau wedi bod rhwng y ddau le ers dros 100 mlynedd.
Mae cyfran fawr o drigolion Johnstown hefyd yn gweithio ym Wrecsam.
Mae’n ymddangos mai ychydig iawn o ymchwil i'r cysylltiadau rhwng Johnstown a Wrecsam sydd wedi cael ei gynnal cyn drafftio'r cynnig.
Mae'n ymddangos ei fod yn ymgais gan y Ceidwadwyr i dynnu'r ardaloedd hynny sy’n agos at Wrecsam ac sy’n pleidleisio i bleidiau eraill heblaw nhw.

**BCW-10559 / [redacted] / Caernarfon**

Dwi ddim yn meddwl bod ystyriaeth digonol wedi ei wneud i pa mor wledig a pha mor eang yn ddaearyddol ydi’r etholaeth newydd. Mewn llefydd trefol mi fyddai’r AS yn gallu mynd o un pen i’r llall yn reit handi ond ddim yn y rhai gwledig. Dio ddim yn gwneud unrhyw fath o synnwyr. Ella o ran nifer o bobol ond siawns fod na rhyw ‘premium’ gwledig i wneud i fyny am y diffyg gwasanaethau yn yr ardaloedd gwledig - trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd ayb.

Felly yn sylfaenol, llai o gynrychiolaeth o Gymru a mwy o Loegr? Sut mae hynny yn deg, o gofio’r mwyafrif llethol sydd o Loegr ar hyn o bryd?

Hefyd, mater bach ella ond mae Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn y sedd yma felly tydi’r enw ddim yn iawn chwaith.

Boncyrs!

**BCW-10560 / [redacted] / Pen-y-bot ar Ogwr**

Rydym yn rhan o gyngor Pen-y-bont ar Ogwr felly dylem fod ym Mhen-y-bont ar Ogwr nid y Rhondda.

**BCW-10561 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae hyn yn warthus ac oni ddylid fod wedi ymgynghori â ni, y bobl. Nid ydw i erioed wedi bod yn hapus bod Llansawel yn cael ei chynnwys gydag Aberafan yn lle Castell-nedd. Cefais fy ngeni yng Nghastell-nedd, ac o’m rhan i, bydda’ i wastad yn ferch o Gastell-nedd. Fydda i byth yn pleidleisio dros unrhyw un o Aberafan heb sôn am Borthcawl!

**BCW-10562 / [redacted] / Llanbedr Pont Steffan**

Rydw i'n cefnogi'r newid i ffiniau Ceredigion Preseli – mae'n rhoi cynrychiolaeth deg o'r boblogaeth a gobeithio y bydd yn rhoi hwb i economi ardaloedd difreintiedig.

**BCW-10563 / [redacted] / Aberystwyth**

Hoffwn awgrymu rhai newidiadau i ardal dyffryn Dyfrdwy, fydd yn cael yr effaith o gryfhau cysylltiadau lleol, a gwneud etholaethau yn fwy hafal o ran poblogaeth.

Ar hyn o bryd gosodir ardal Corwen o fewn etholaeth Maldwyn-Glyndŵr, lle nad oes cysylltiadau trafnidiaeth neu gymunedol cryf o gwbl. Mae prif gysylltiadau yr ardal ar hyd yr A5 - gyda Cherrigydrudion / Pentrefoelas i'r gorllewin a Llangollen i'r dwyrain.

Gellid symud wardiau Llandrillo, Corwen a Llanfair DC i etholaeth Bangor-Aberconwy, lle mae wardiau cyfagos Sir Ddinbych Efenechdyd a Llanrhaeadr yng Nghinmeirch eisoes wedi eu gosod. Byddai'r newid hwn yn uno ardal hanesyddol Edeirnion o fewn un etholaeth ac yn rhoi Corwen mewn sedd lle mae ganddi fwy o gysylltiadau naturiol o lawer na Maldwyn.

Byddai'r newid yma yn cadw pob etholaeth yn yr ardal o fewn y terfynau etholwyr ac ni fyddai sgil-effeithiau ar ardaloedd eraill.

Ond hoffwn awgrymu 2 newid bychan arall.

Gellid symud ward Llangollen Wledig i sedd Maldwyn-Glyndwr (newid fyddai'n symud ffin yr etholaeth i gydymffurfio â'r ffin sirol), a symud ward Esclusham i etholaeth Wrecsam (gan fod trwch ei phoblogaeth ym mhentrefi Rhostyllen a Bersham, yn nwyrain y ward nepell o ganol Wrecsam).

Eto dylai fod y newidiadau hyn yn cadw pob sedd o fewn terfynau poblogaeth addas, ac yn wir yn eu gwneud yn fwy hafal.

**BCW-10564 / [redacted] / Castell-nedd**

I YSGRIFENNYDD AC AELODAU O’R COMISIWN FFINIAU I GYMRU.

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cynigion diwygiedig a gyhoeddwyd ar 19 Hydref ac i ailadrodd fy ngwrthwynebiad llwyr i'ch cynnig cyhoeddedig ar gyfer cymoedd Aman Uchaf ac Abertawe. Hoffwn eich cyfeirio at fy ymateb blaenorol i’r cynnig hwn, a gafodd y cyfeirnod: BCW 9651
Rwyf wedi manteisio ar y cyfle ers i mi ymateb i'ch cynnig drafft cyntaf i siarad â'm cyd-drigolion yng nghymoedd Aman Uchaf ac Abertawe a'r peth sydd wedi fy nharo i fwyaf yw'r lefel isel iawn o ymwybyddiaeth sydd ymlith cyhoedd, hyd yn oed o fodolaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei hun, heb sôn am eich cynigion drafft a gyhoeddwyd ar gyfer yr ardaloedd hyn yn y cymoedd.
Rydw i wir yn teimlo bod hwn yn gyfle a gollwyd gan fy mod wedi clywed safbwyntiau diddorol gan bobl ifanc am eu llywodraethu yn y dyfodol. Pam mae cyn lleied o gysylltiad wedi bod â phobl ifanc pan fyddan nhw'n gallu pleidleisio yn etholiadau Cymru yn 16 oed?
Rydw i wedi codi ymwybyddiaeth gyda grwpiau pensiynwyr a Chynghorau Cymuned ac nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gefnogaeth i'ch cynnig drafft.
Mae pobl wir yn teimlo nad oes ganddyn nhw ddim byd yn gyffredin â Brycheiniog a Maesyfed ac maen nhw'n dymuno'n gryf i gadw eu cysylltiadau traddodiadol, hanesyddol, cymunedol a daearyddol â chymoedd Castell-nedd a Dulais a gyda sir gadwedig Gorllewin Morgannwg.
Nid wyf yn awgrymu cynnig arall gan fy mod yn ymwybodol bod Plaid Cymru a’r cyn-Gynghorydd Arwyn Woolcock (Eich Cyf: BCW-10434) wedi cyflwyno dewisiadau amgen yn y drefn honno a byddwn yn ei chael hi’n haws cefnogi'r naill neu'r llall o'r dewisiadau amgen hyn.
Rwy'n ymwybodol bod "Llafur Cymru" wedi cefnogi eich cynnig ar gyfer Cymoedd Aman Uchaf ac Abertawe a'ch datganiad bod "hon yn ardal heb ateb hawdd". Mae'r disgrifiad hwn o fy ardal enedigol yn sarhaus ac mae'n awgrymu i mi fod ardal o fwy nag 17,000 o bleidleiswyr wedi gorfod ffitio i mewn i Etholaeth Brycheiniog a Maesyfed fel set gyfleus o niferoedd.
Rydych chi'n ysgrifennu bod eich cynnig drafft wedi cael cefnogaeth gan y Blaid Lafur ond hoffwn wneud yn glir, fel aelod o'r Blaid Lafur ers dros 45 mlynedd, er bod "We in Welsh Labour" wedi lleisio ei chefnogaeth i'r cynnig ar gyfer Cymoedd Aman Uchaf ac Abertawe, mae'r cynnig hwn wedi cael ei wrthod yn unfrydol gan Blaid Lafur Etholaeth Castell-nedd. Mae etholaeth Castell-nedd yn haeddu amlygrwydd cyfartal â "Llafur Cymru" gan mai aelodau'r etholaeth, yn enwedig aelodau o gymoedd Aman Uchaf ac Abertawe, fydd yn cael euhfeffeithio fwyaf gan y cynnig amymarferol hwn.
Os caiff y cynnig hwn ei fabwysiadu fel un terfynol, mae yna deimlad y byddai disgwyl i gyfathrebu fod yn bennaf drwy ddulliau electronig a fydd yn arwain at rai pobl hŷn yn teimlo'n ynysig ac yn cael eu heithrio o'r broses ddemocrataidd. Gallai cyfnewidiadau wyneb yn wyneb oherwydd anawsterau daearyddol fynd yn broblemus.
Hyd yn oed ar y cam olaf hwn o'r broses hon, rwy'n eich annog fel aelodau unigol o'r Comisiwn i ailystyried eich cynnig ac i gydnabod mai dyma'r cynnig gwaethaf y gellid fod wedi cael ei wneud ar gyfer fy ardal. Rydw i wir yn teimlo bod yr anawsterau daearyddol yn unig yn gwneud y cynnig hwn yn ddisynnwyr. Byddai teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o Gwaun Cae Gurwen i Landrindod lle mae gan yr AS presennol ei swyddfa yn amhosibl a byddai mynediad hawdd at y broses ddemocrataidd yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol.
Rwy'n eich annog i ailystyried y cynnig hwn ac i drin hawl pobl cymoedd Aman Uchaf ac Abertawe i lywodraethu cyfleus, gan ystyried a rhoi sylw priodol i'r anghyfleustra a'r aflonyddwch diangen y bydd eich cynnig yn ei achosi.
Rwyf hefyd yn eich annog i barchu'r cysylltiadau cymunedol â chymoedd Castell-nedd a Dulais, gyda sir gadwedig Gorllewin Morgannwg, ein traddodiadau, ein treftadaeth a'n hanes ac yn wir ein ffordd o fyw, y cyfan wedi cael eu hadeiladu ar lo nid cnydau, er bod yr olaf yn hanfodol.

[redacted]

Cyn-Aelod Cynulliad Cymru dros Gastell-nedd (fel yr oedd bryd hynny)

**BCW-10565 / [redacted] Ar ran CLP Abertawe / Abertawe**

Annwyl Shereen a thîm Comisiwn Ffiniau i Gymru,

Cyfeiriaf at eich cynigion ffiniau ar gyfer Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a Chanol a Gogledd Abertawe, dyddiedig 18 Hydref 2022.

Fel Cadeirydd Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Abertawe, hoffwn gyfleu fy nghefnogaeth a chymeradwyaeth lwyr ar gyfer y cynnig ffiniau diwygiedig a gyflwynwyd gan Geraint Davies AS, a nodir isod:

**A) Ail-uno Sgeti ac Uplands**
Mae'r wardiau hyn wedi'u cysylltu'n ddi-dor mewn daearyddiaeth ac mae ganddynt gymunedau rhyng-gysylltiedig agos.
Mae Uplands yn lletya llawer o'r rheiny sy'n gweithio ac yn astudio yn Sgeti yn y Brifysgol ac yn Ysbyty Singleton yno.
Yn yr un modd, mae nifer o'r cymunedau yn Sgeti yn teithio trwy Uplands i fynd i'r gwaith, gweithgareddau hamdden ac addoli yng nghanol a gogledd Abertawe.

**B) Cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth**
Mae'r cynigion hyn hefyd yn uno Mayals â wardiau eraill West Cross, Oystermouth a Newton sy'n ffurfio Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

### Dewis un

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe.
2. Symud Pontarddulais (4954), Llangyfelach (3946) a Phenllergaer (2553) – cyfanswm o **11,453** – o Ganol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol - Gŵyr a Gorllewin Abertawe 75,363 (2.6% yn uwch nag UKEQ) a Chanol a Gogledd Abertawe 71,229 (-2.9% yn is nag UKEQ).

**Dewis dau**

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe

1. Symud Pontarddulais (4954), Mawr (1438) a Phenlle'r-gaer (2553) - cyfanswm o **8,945** - o Chanol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol fyth o Gŵyr (wedi'i hailenwi) 72,855 (0.7% yn is na UKEQ) a Chanol Abertawe (wedi'i hailenwi) 73,737 (0.4% yn uwch na UKEQ).

Mae'r ddau ddewis arall yn parchu ffiniau'r etholaethau presennol yn agosach.

Mae **dewis un** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontardulais, Llangyfelach a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr

Mae **dewis dau** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontarddulais, Mawr a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr

Mae'r ddau ddewis hyn yn llai radical na chynigion diwygiedig Comisiwn Ffiniau I Gymru gan eu bod yn

- darparu ffit a chysylltiadau daearyddol mwy cydlynol
- cadw cysylltiadau cymunedol presennol yn gryfach a lleihau anghyfleustra
- datrys problem "hollti Sgeti o Uplands"
- uno Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth.

Rwy’n ffafrio dewis dau, gan ei fod

- yn creu sedd newydd 'Canol Abertawe' sy'n cynnwys Llangyfelach
- a sedd 'Gŵyr' newydd fwy cyson
- yn creu dwy etholaeth ill dwy o fewn un y cant o UKEQ 73,393 (sy'n galluogi mwy o amrywiaeth yn y boblogaeth).

Credaf yn gryf y byddwch yn rhoi ystyriaeth briodol i'r diwygiad hwn.

Yn gywir
[redacted]
Cadeirydd, Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Abertawe

## BCW-10566 / [redacted] Ar ran y gymuned Affricanaidd yng Ngorllewin Abertawe / Abertawe

Bore da Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Yn dilyn y cyhoeddiad am y diwygiad ffiniau, hoffem gefnogi'r diwygiadau sydd wedi cael eu gwneud gan yr Aelod Seneddol, Geraint Davies AS, ar ran y gymuned Affricanaidd yng Ngorllewin Abertawe. Mae wedi awgrymu dau ddewis arall ac rydym yn hapus i gefnogi ac argymell y rhain.

**A) Ail-uno Sgeti ac Uplands**
Mae'r wardiau hyn wedi'u cysylltu'n ddi-dor mewn daearyddiaeth ac mae ganddynt gymunedau rhyng-gysylltiedig agos.
Mae Uplands yn lletya llawer o'r rheiny sy'n gweithio ac yn astudio yn Sgeti yn y Brifysgol ac yn Ysbyty Singleton yno.
Yn yr un modd, mae nifer o'r cymunedau yn Sgeti yn teithio trwy Uplands i fynd i'r gwaith, gweithgareddau hamdden ac addoli yng nghanol a gogledd Abertawe.

**B) Cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth**
Mae'r cynigion hyn hefyd yn uno Mayals â wardiau eraill West Cross, Oystermouth a Newton sy'n ffurfio Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

### Dewis un

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe.
2. Symud Pontarddulais (4954), Llangyfelach (3946) a Phenllergaer (2553) – cyfanswm o **11,453** – o Ganol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol - Gŵyr a Gorllewin Abertawe 75,363 (2.6% yn uwch nag UKEQ) a Chanol a Gogledd Abertawe 71,229 (-2.9% yn is nag UKEQ).

**Dewis dau**

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe

1. Symud Pontarddulais (4954), Mawr (1438) a Phenlle'r-gaer (2553) - cyfanswm o **8,945** - o Chanol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol fyth o Gŵyr (wedi'i hailenwi) 72,855 (0.7% yn is na UKEQ) a Chanol Abertawe (wedi'i hailenwi) 73,737 (0.4% yn uwch na UKEQ).

Mae'r ddau ddewis arall yn parchu ffiniau'r etholaethau presennol yn agosach.

Mae **dewis un** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontardulais, Llangyfelach a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr
Mae **dewis dau** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontarddulais, Mawr a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr

Mae'r ddau ddewis hyn yn llai radical na chynigion diwygiedig Comisiwn Ffiniau I Gymru gan eu bod yn

- darparu ffit a chysylltiadau daearyddol mwy cydlynol
- cadw cysylltiadau cymunedol presennol yn gryfach a lleihau anghyfleustra
- datrys problem "hollti Sgeti o Uplands"
- uno Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth.

Rwy’n ffafrio dewis dau, gan ei fod

- yn creu sedd newydd 'Canol Abertawe' sy'n cynnwys Llangyfelach
- a sedd 'Gŵyr' newydd fwy cyson
- yn creu dwy etholaeth ill dwy o fewn un y cant o UKEQ 73,393 (sy'n galluogi mwy o amrywiaeth yn y boblogaeth).

Gobeithiwn y bydd y cais hwn yn cael ei ystyried.

Yn gywir
[redacted]
Ar ran y gymuned Affricanaidd yn Abertawe

**BCW-10567 / [redacted] / Caersws**

Mae fy ymateb i'r Adolygiad Ffiniau yn llwyr gefnogi cynnig diwygiedig Sir Drefaldwyn a Glyndwr y mae'n ymddangos bod cefnogaeth ysgubol ar ei gyfer. Mae hyn yn dilyn y siom ddifrifol yn y cynigion gwreiddiol i rannu'r sir ar ôl canrifoedd o hanes fel etholaeth seneddol. Yn sgil cyfrif cyflym, fe wnes i ganfod o leiaf 14 o gymdeithasau yn Sir Drefaldwyn gyda miloedd o aelodau blaenorol a phresennol a fydd yn croesawu'r cynigion diweddaraf hyn gydag ochenaid o ryddhad. Bydd uno rhai o'r hen siroedd yn anochel o ystyried briff y Comisiwn, ond lle bo modd, dylai'r ardaloedd hynny, fel Sir Drefaldwyn, aros yn gyfan gydag ychwanegiadau, lle bo angen, er mwyn cyflawni'r niferoedd gofynnol. Nid yw Sir Drefaldwyn yn ystyried ei hun yn rhan o ogledd na de Cymru, ac mae'n falch o'i hunaniaeth canolbarth Cymru ar wahân.

Mae gan y rhannau o Dde Clwyd sy'n ffinio â ffiniau Sir Drefaldwyn gymunedau amaethyddol gwledig tebyg gyda rhwydwaith ffyrdd, cyfathrebu, ysgolion gwledig a materion band eang tebyg, ac mae'r AS presennol yn gyfarwydd â'r cyfan. Mae gan gymunedau eraill i'r gogledd o'r Waun ardaloedd mwy poblog mewn amgylchoedd gwledig, ond ei gynnwys yw'r opsiwn gorau i gyflawni'r cyfrif gofynnol.

Mae gan yr opsiwn ar gyfer Sir Drefaldwyn a Glyndwr fy nghefnogaeth lawn.

**BCW-10568 / [redacted] / Caerfyrddin**

Rwy'n credu bod y cynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth Caerfyrddin yn adlewyrchu rhwymau a chysylltiadau lleol yn fwy cywir na'r cynigion cychwynnol. Yn sicr, rwy'n teimlo mwy o gysylltiad â'r cymunedau eraill sydd wedi cael eu cynnwys yn y cynnig na gyda'r rheiny yn yr etholaeth bresennol. Rwy'n falch bod tref Caerfyrddin bellach yn gyfan. Nid oedd yn gwneud synnwyr i wahanu cymunedau sy'n ystyried eu hunain yn rhan amlwg iawn o'r dref, i etholaeth yn Llanelli.

**BCW-10569 / [redacted] / Brynbuga**

Gormod o etholaethau ar draws ardaloedd y cymoedd a Chaerdydd gydag ychydig iawn yng nghanolbarth a gogledd Cymru.

**BCW-10570 / [redacted] / Gilfach Goch**

Pentref bychan wedi ei rannu yw Gilfach Goch. Mae hanner fy mhentref yn ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'r hanner arall yn ardal Cyngor Rhondda Cynon Taf, ond rydym yn unedig gan fod y pentref cyfan yn etholaeth Ogwr. Fodd bynnag bydd y cynigion hyn yn rhannu'r gymuned hon ymhellach. Gadewch i ni gadw ein pentref gyda'i gilydd a gadael i ni aros yn ardal Ogwr lle mae ein treftadaeth a lle mae gennym elfen gyffredin. Dylech gael rhywfaint o dosturi wrth ddelio â chymunedau bach fel ein un ni. Nid llinell wedi'i thynnu yw'r ateb.

**BCW-10571 / [redacted] / Abertawe**

Mae Pontardawe yn rhan ffisegol a diwylliannol o Gwm Tawe ac mae wedi bod erioed. Nid oedd ffin flaenorol Castell-nedd Port Talbot yn adlewyrchiad cywir o ble ddylai'r ffin fod wedi bod.
Dylai'r ffin naturiol fod ymhellach i fyny Cwm Tawe/Abertawe, efallai’n cysylltu â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**BCW-10572 / [redacted] / Cwmbrân**

Ar ôl blynyddoedd maith, nid ydw i’n uniaethu o hyd â Thorfaen. Roedd modd goddef Gwent. Yr hyn nad yw erioed wedi bod modd ei oddef yw nad yw Sir Fynwy yn cynnwys ffin wreiddiol y Sir. Cefais fy ngeni yn Sir Fynwy a oedd yn Lloegr. Dydw i ddim, ac erioed wedi bod, o Dorfaen na Chymru, mewn gwirionedd. Rwy'n ei alw'n Lan Orllewinol yr Hafren, wedi’i feddiannu

Rwy'n credu bod Torfaen fel ardal weinyddol wedi profi nad yw'n gweithio. Erbyn hyn, mae gennym awdurdodau lleol bach aneffeithiol sydd heb ddylanwad, heb rym ariannol ac yn cynnig dim i'w cymunedau.

Dylid dod â'r Sir Fynwy wreiddiol a ddatblygodd fel sir falch yn ôl. Stopiwch y "Cymreictod" ffug gwallgof hwn a dathlwch y ffaith ein bod ni’n ardal ar y ffin ac yn gymysgedd. Stopiwch wastraffu arian a'i ddefnyddio lle mae ei angen yn fawr.

Rhowch ein ffiniau yn ôl lle maen nhw'n perthyn! Stopiwch ddifetha ein hanes wych a'i ailysgrifennu i gyd-fynd â dibenion gwleidyddol. Rydw i eisiau hen sir Fynwy yn ôl - pam y dylai berthyn i Gas-gwent, Brynbuga, Y Fenni a Threfynwy yn unig?

Gyda llaw, dyma'r tro cyntaf i mi weld yr ymgynghoriad hwn - rwy'n anhapus nad yw Torfaen yn cael ei diddymu.

**BCW-10573 / [redacted] / Pentwynmawr**

Rwy’n hapus iawn â map Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Roedd ein cyfeiriad yn union ar y ffin yn y cynnig hŷn; mae'r map newydd yn llawer gwell ac yn cadw ein cyfeiriad yn fwy cynhwysol.

**BCW-10574 / [redacted] / Cwmcarn**

Mae etholaeth Iswlyn a Gorllewin Casnewydd yn chwerthinllyd. Fel un o drigolion Islwyn, nid oes gennym ddim byd yn gyffredin â Gorllewin Casnewydd. Mae'r ardal yn hollol wahanol ac mae'r pethau sy'n bwysig i ni yn y cwm yn wahanol i Gasnewydd. Os unrhyw beth, dylem gael Pontllanfraith ynddo ac aros fel Islwyn. Mae ein AS a'n Cynghorwyr yn gwybod beth sy'n bwysig i ni. Ni fydd ein cynnwys gyda Gorllewin Casnewydd yn rhoi unrhyw fudd i'r naill ardal na'r llall. Ni fydd cynghorwyr ac ASau yn gallu cwmpasu ardal fwy a delio â'r hyn sy'n bwysig.

Os na all Islwyn fod yn ardal ar ei phen ei hun oherwydd poblogaeth, dylid ei huno â Chaerffili ac addasu'r ffiniau eraill ar ochrau eraill Caerffili. Os yw uno â Chaerffili yn gwneud y boblogaeth yn rhy fawr, dylid ei rhannu'n Ogledd Caerffili a De Caerffili, neu Dwyrain Caerffili a Gorllewin Caerffili.

Cadw at Ffiniau'r Cyngor fel wardiau h.y. os yw'n gyngor Casnewydd, dylid ei gadw fel Casnewydd, os yw'n Caerffili, dylid ei gadw fel Caerffili. Rydych chi wedi gwneud hynny gyda Thorfaen pan symudoch chi Llanfrechfa a'r ardal honno i ardal Torfaen yn lle ei gadw yn Nhrefynwy. Mae Llanfrechfa'n rhan o gyngor Torfaen. A wnewch chi wneud yr un peth gydag Islwyn os gwelwch yn dda.

**BCW-10575 / [redacted] / Sgiwen**

Mae cysylltu Sgiwen â Phorthcawl hyd yn oed yn fwy twp na'r cyswllt presennol â Phort Talbot. Mae cysylltiad hanesyddol rhwng Sgiwen, Castell-nedd a Llansawel ac mae'n eithaf rhyfeddol torri hyn. Mae gwneud deddf sy'n seiliedig ar nifer y trigolion yn afresymol. Dylai'r cyswllt fod yn seiliedig ar ddaearyddiaeth a chysylltiad hanesyddol. Os oes gan gynrychiolydd gwleidyddol ardal bleidlais ar faterion cenedlaethol, dylai'r cynrychiolydd hwnnw gael pleidlais ffracsiynol sy'n adlewyrchu'r boblogaeth. Dyma enghraifft arall o ddiffyg meddwl dadansoddol llwyr gan wleidyddion Cymru.

**BCW-10576 / [redacted] / Corwen**

Sut mae Llangollen wedi cael ei thynnu allan i gael ei chynnwys mewn etholaeth ar wahân i Ddyffryn Dyfrdwy? Nid yw'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr ysgol uwchradd yn byw yn yr etholaeth arfaethedig ar gyfer Llangollen. Mae angen i bentrefi fel Carrog yn Nyffryn Dyfrdwy gael eu cynrychioli gan yr un etholaeth sy'n cynrychioli Llangollen, gan mai dyma ein tref fwyaf ni sy'n cynnwys yr ysgol uwchradd leol.

**BCW-10577 / [redacted] / Ffynnon Taf**

Rwy'n meddwl ei fod yn chwerthinllyd y byddwn ni yn Ffynnon Taf yn dod o dan Oogledd Caerdydd yng Nghaerdydd ar gyfer un peth, tra ar gyfer popeth arall, byddwn yn dod o dan RhCT, sef sir wahanol!! Bydd hyn yn siŵr o arwain at faterion cymhleth a dryswch!

**BCW-10578 / [redacted] / Meisgyn**

Annwyl Syr/Madam, Fel preswylydd ym Meisgyn/Pont-y-clun yn RhCT, rwy'n gwrthwynebu'r newid arfaethedig yn fy ardal i symud i etholaeth Gorllewin Caerdydd. Wrth edrych ar y map, mae'n dangos na fydd yr ysgol uwchradd leol sydd mewn pellter cerdded i bobl ifanc sy'n byw ym Meisgyn a Phont-y-clun yn perthyn i'r etholaeth bellach. Bydd hyn yn golygu na fydd plant yn etholaeth Meisgyn Pont-y-clun yn nalgylch Ysgol Uwchradd Y Pant bellach ac y bydd angen iddynt deithio ar fysiau i Gaerdydd. Mae hyn yn dwp. Yn gyntaf, bydd yn cynyddu ôl troed carbon, y dylai pob un ohonom fod yn lleihau ar hyn o bryd, a bydd hefyd yn effeithio ar annibyniaeth a chyfeillgarwch y bobl ifanc y maent wedi eu hadeiladu yn ystod blynyddoedd ysgol gynradd. Yn ail, mae trigolion Meisgyn a Phont-y-clun yn teimlo'n rhan o gymuned ehangach Llantrisant a Thonysguboriau sy'n hawdd i'w chyrraedd ar droed, ar drafnidiaeth gyhoeddus a char. Yn drydydd, byddai hyn yn siŵr o gynyddu ôl troed carbon ar gyfer gwasanaethau sbwriel ac ailgylchu hefyd. Rwy'n deall bod angen gwneud newidiadau ond nid yw hollti cymuned yn ei hanner yn gwneud synnwyr ac rwy'n eich annog i ailystyried.

**BCW-10579 / [redacted] / Pontlotyn**

Er y gallai pobl yn Rhymni deimlo cysylltiad â'r cymunedau ym Mlaenau Gwent, gan yr oedden nhw i gyd yn "Sir Fynwy" ar un adeg, yr ochr arall i Afon Rhymni, nid oes gan drefi a phentrefi Tre-biwt, Fochriw, Pontlotyn, Deri, Brithdir a Bargod unrhyw gysylltiad â'r ardal hon. Roedden ni wastad yn Ganol Morgannwg.
Mae pob trafnidiaeth yn yr ardal yn mynd o'r gogledd i'r de, i lawr y cymoedd i Gaerffili. Mae'n cymryd dros 2 awr ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd Glyn Ebwy, hyd yn oed os yw'n agos mewn car. Dychmygwch petai rhywun eisiau ymweld â chymhorthfa ASau yng Nglyn Ebwy, sut bydden nhw'n gallu teithio yno ac yn ôl ar fws o Fargod?
Mae ein cysylltiad ni â Chwm Rhymni.
Rydych chi eisoes wedi ein symud unwaith o Gaerffili i Ferthyr, a nawr rydych chi eisiau ein symud eto.
Ein hawdurdod lleol yw Caerffili, dylen ni fod yn yr un un ar gyfer yr etholaeth. Rwy'n gwrthwynebu'r newid hwn i'r ffin.

**BCW-10580 / [redacted] / Conwy**

Beth yw'r pwynt

Mae democratiaeth wedi methu. Mae San Steffan ac yn enwedig Cynulliad Cymru yw hunanwasanaethu ac yn dda i ddim.

Peidiwch â gwastraffu fy amser.

**BCW-10581 / [redacted] / Prestatyn**

Rydw i'n hapus bod Dwyrain Clwyd ar wahân i'r Rhyl.

**BCW-10582 / [redacted] / Pontardawe**

Dydw i ddim eisiau i hyn ddigwydd gan ei fod yn tawelu llais Cymru yn San Steffan.

**BCW-10583 / [redacted] / Llanrwst**

MAE Y FFINIAU NEWYDD YN MYND I WANHAU ARDALOEDD CYMRU.

GWELL MYND YN ÔL I FEL OEDD Y SIROEDD YN Y GOGLEDD CYN I CONWY GAEL EI GREU -

- GWYNEDD
- CLWYD

GWARTHUS RHANNU BETHESDA A BANGOR!

ANGEN EDRYCH MWY AR Y CYMDEITHAS SYDD YN YR ARDALOEDD MWY NA RHIFAU -

- ANGEN I POBL Y WLAD CAEL CYN GYMAINT O DDWEUD A RHAI YN Y TREFYDD.

POBL SYDD YN BWYSIG NID RHIFAU.

**BCW-10584 / [redacted] / Aberystwyth**

Does dim ffordd y gall ymuno â Cheredigion a Sir Benfro weithio. Cefnwch ar y syniad annoeth hwn. Diolch.

**BCW-10585 / [redacted] / Capel Garmon**

Agenda wedi'i chuddio'n dda gan dde Cymru i ymylu gogledd Cymru.
Dim ystyriaeth i helpu'r gymuned wledig.
Mae Drakeford yn dod â'r wlad hon i'w gliniau.

**BCW-10586 / [redacted] / Aberystwyth**

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig ar gyfer ward newydd Ceredigion Preseli. Mae'n ardal rhy fawr i'w chwmpasu fel y mae, a byddwn yn poeni na fyddai anghenion llawer o unigolion yn cael sylw.

Rwy'n deall bod angen cael nifer gyfartal o bleidleiswyr ym mhob etholaeth a bod y de yn fwy poblog (felly dyna pam mae ganddynt fwy o etholaethau). Fodd bynnag, mae'n teimlo fel pe bai rhanbarthau'r canolbarth a'r gogledd eisoes yn cael eu hanghofio, felly drwy ein gosod ni i gyd gyda'n gilydd mewn un etholaeth fawr, bydd yn ei gwneud hi'n anoddach fyth i ni weld unrhyw newidiadau cadarnhaol neu'n teimlo fel pe bai rhywun yn gwrando arnom ni.

**BCW-10587 / [redacted] Côr Meibion Cwm Aber / Caerffili**

Annwyl Syr
Rwy'n ysgrifennu ar ran 35 o aelodau'r Côr, cyfeilydd a chyfarwyddwr cerdd Côr Meibion Cwm Aber, bob un ohonynt yn byw yn etholaeth bresennol Caerffili, i ddiolch I'r Comisiwn Ffiniau i Gymru am wrando ar farn y cyhoedd, a'u hannog i gadw at eu gwrthgynnig diwygiedig.
Llawer o ddiolch

[redacted]

*Cyfarwyddwr Cerdd Côr Meibion Cwm Aber*

**BCW-10588 /** [redacted] Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru / **Abertawe**

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y gymuned Tsieineaidd yn Abertawe i gefnogi'r dewisiadau amgen i'ch cynigion diwygiedig isod gan Geraint Davies AS.

Ein cymuned Tsieineaidd yn Abertawe yw'r ail gymuned leiafrifol fwyaf ar ôl y gymuned Bangladeshi yn y ddinas ac rydym yn cefnogi cadw Sgeti ac Uplands gyda'i gilydd yn y ffordd a awgrymir.

Rydym hefyd yn cefnogi rhoi Cyngor Cymuned y Mwmbwls mewn un etholaeth ac rydym yn falch iawn bod y person Tsieineaidd cyntaf, y cynghorydd Tim Zhou, newydd gael ei ethol iddo!

Rydyn ni'n cefnogi’r ail ddewis yn arbennig, sy’n cynnal etholaethau presennol Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn agos.

Llawer o ddiolch.

Yn gywir,
[redacted]

**BCW-10589 / [redacted] / Abertawe**

Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r dewisiadau amgen i'ch cynigion ffiniau diwygiedig fel y nodir isod gan Geraint Davies AS. (Atodedig).

Yn allweddol, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ail-uno Sgeti ac Uplands sydd wedi cael eu cysylltu'n ddi-dor yn ffisegol a thrwy eu cymunedau, felly dylent aros yn yr un etholaeth. Mae'r gymuned Fwslimaidd a chymunedau lleiafrifol eraill yn cefnogi'n gryf Opsiwn Dau i greu etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe "yn edrych tua'r gorllewin" sy'n cydweddu'n well ag amrywiaeth. Mae'n bwysig i gymunedau lleiafrifol Abertawe gael un AS i weithio â nhw a bod addolwyr a mosgiau yn yr un etholaeth (drwy ail-uno Sgeti ac Uplands). Bydd hyn hefyd yn datrys y broblem gynhenid yng nghynnig gwreiddiol y Comisiwn Ffiniau i Gymru o rannu Sgeti o'r Uplands - a champws y brifysgol o ble mae'r myfyrwyr yn byw, gydag ASau gwahanol yn cynrychioli pob un. Fel Is-gadeirydd Undeb Prifysgolion a Cholegau Undeb Staff Prifysgol Abertawe ac Is-Gadeirydd Fforwm Llywodraethwyr Ysgolion, credaf y bydd hyn hefyd yn cadw'r dalgylch ysgolion ar gyfer disgyblion yn y cyfansoddiad, sy'n cofrestru yn ysgolion Bishop Gore ac Olchfa, ill dwy yn Sgeti. (Ar hyn o bryd, nid oes ysgol gyfun yn ardal opsiwn 1 yng nghynnig gwreiddiol y Comisiwn Ffiniau i Gymru).

Mae'r dewisiadau amgen hyn yn cyflawni hyn a hefyd yn sicrhau bod wardiau Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth. Rydym yn cefnogi'n arbennig y dewis amgen sy'n adlewyrchu'n agosaf etholaethau presennol Gŵyr a Gorllewin Abertawe h.y. dewis 2, a fyddai hefyd yn golygu y gallai enwau'r etholaethol hynny gael eu cadw. (byddai enwau'r etholaethau'n dod yn Gŵyr (ar gyfer yr hyn a oedd yn Gŵyr a Gorllewin Abertawe) a Gorllewin Abertawe (ar gyfer yr hyn a oedd yn Ganol a Gogledd Abertawe) yn seiliedig ar y ffaith ei bod i'r gorllewin o'r afon Tawe a gelwir i'r dwyrain ohoni Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Rwy'n gwybod bod y dewisiadau amgen hyn yn cael eu cefnogi yn y cymunedau Mwslimaidd a chymunedau eraill ledled Abertawe, ac yn cael eu croesawu hefyd gan undeb staff Prifysgol Abertawe, lle rwy'n gweithio. Rwy'n gobeithio'n fawr yr ystyrir opsiwn 2 a gynigiwyd gan Mr Davies AS fel ein llais cyfunol.

Dymuniadau gorau

[redacted]

**A) Ail-uno Sgeti ac Uplands**
Mae'r wardiau hyn wedi'u cysylltu'n ddi-dor mewn daearyddiaeth ac mae ganddynt gymunedau rhyng-gysylltiedig agos.
Mae Uplands yn lletya llawer o'r rheiny sy'n gweithio ac yn astudio yn Sgeti yn y Brifysgol ac yn Ysbyty Singleton yno.
Yn yr un modd, mae nifer o'r cymunedau yn Sgeti yn teithio trwy Uplands i fynd i'r gwaith, gweithgareddau hamdden ac addoli yng nghanol a gogledd Abertawe.

**B) Cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth**
Mae'r cynigion hyn hefyd yn uno Mayals â wardiau eraill West Cross, Oystermouth a Newton sy'n ffurfio Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

## Dewis un

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i Ganol a Gogledd Abertawe.
2. Symud Pontarddulais (4954), Llangyfelach (3946) a Phenllergaer (2553) – cyfanswm o **11,453** – o Ganol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol - Gŵyr a Gorllewin Abertawe 75,363 (2.6% yn uwch nag UKEQ) a Chanol a Gogledd Abertawe 71,229 (-2.9% yn is nag UKEQ).

**Dewis dau**

1. Symud Sgeti (**11,304**) o Gŵyr a Gorllewin Abertawe i  Ganol a Gogledd Abertawe

1. Symud Pontarddulais (4954), Mawr (1438) a Phenlle'r-gaer (2553) - cyfanswm o **8,945** - o Chanol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol fyth o Gŵyr (wedi'i hailenwi) 72,855 (0.7% yn is na UKEQ) a Chanol Abertawe (wedi'i hailenwi) 73,737 (0.4% yn uwch na UKEQ).

Mae'r ddau ddewis arall yn parchu ffiniau'r etholaethau presennol yn agosach.

Mae **dewis un** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontardulais, Llangyfelach a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr
Mae **dewis dau** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontarddulais, Mawr a Phenllergaer yn etholaeth bresennol Gŵyr


Mae'r ddau ddewis hyn yn llai radical na chynigion diwygiedig Comisiwn Ffiniau I Gymru gan eu bod yn


- darparu ffit a chysylltiadau daearyddol mwy cydlynol
- cadw cysylltiadau cymunedol presennol yn gryfach a lleihau anghyfleustra
- datrys problem "hollti Sgeti o Uplands"
- uno Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth.

Rwy’n ffafrio dewis dau, gan ei fod

- yn creu sedd newydd 'Canol Abertawe' sy'n cynnwys Llangyfelach
- a sedd 'Gŵyr' newydd fwy cyson
- yn creu dwy etholaeth ill dwy o fewn un y cant o UKEQ 73,393 (sy'n galluogi mwy o amrywiaeth yn y boblogaeth).

Felly, rwy'n argymell yn gryf y dewisiadau eraill hyn. Mae mapiau canllaw o'r ddau ddewis arall isod er hwylustod i chi.
Dymuniadau gorau iawn



## BCW-10590 / [redacted] / Sir Benfro

Prynhawn da,

Rwy'n siomedig iawn fod y Comisiwn Ffiniau wedi penderfynu symud ward Maenclochog ym mis Rhagfyr 2020 o etholaeth Canol a De Sir Benfro i Geredigion Preseli. Mae fy sylwadau blaenorol yn fy e-bost o gynrychiolaeth, dyddiedig 13 Mawrth 2022, isod.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Cyngor Cymuned y Mot lle rwy'n byw, wedi bod yn Ward Cyngor Sir Maenclochog tan yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, mae bellach yn rhan o Ward Cyngor Sir Cas-wis. Fi yw Cynghorydd Sir y ward honno. Rwy’n ysgrifennu atoch yn bersonol.

Os caiff y cynigion diweddaraf eu mabwysiadu, byddai Ward Cyngor Sir Cas-wis yn gweld rhan ohoni (ardal Cyngor Cymuned y Mot) yn cael ei chynnwys yng Ngheredigion Preseli, a’r gweddill (ardal Cyngor Cymuned Cas-wis ac ardal Cyngor Cymuned Treamlod) yng Nghanol a De Sir Benfro. Nid wyf yn ystyried bod hyn yn synhwyrol. Rwy'n ystyried bod manteision enfawr i ymgysylltu ag un AS yn hytrach na dau.

Rwy'n teimlo bod eich cynigion blaenorol yn synhwyrol. Nid oedd y cynigion blaenorol yn cynnwys rhannu wardiau'r Cyngor Sir, ac mae'r cynigion newydd yn gwneud hynny.

Dyma’r rhesymau dros gadw hen Ward Maenclochog –

**Byddwn i'n awgrymu'n gryf fod mwyafrif helaeth trigolion Ward Maenclochog yn edrych i'r de am lawer o'u gwasanaethau a'u cysylltiadau yn hytrach nag i'r gogledd. Yn ddyddiol, rwy'n gweld pobl o ardal y Mot a Maenclochog yn teithio i'r de tua Hwlffordd neu Arberth ar gyfer gwaith, eu gweithgareddau hamdden a llawer o gysylltiadau eraill. Yn yr un modd, byddwn i'n awgrymu bod gan y rheiny sy'n byw yn ardaloedd Clunderwen a Llandysilio lawer o gysylltiadau ag Arberth i'r de. Byddwn i'n awgrymu nad oes llawer yn edrych tua'r gogledd i Aberteifi, a fyddai'n golygu taith dros Fynyddoedd y Preseli.**

Hefyd, yn ychwanegol at hyn,  byddai'r cynigion newydd hefyd yn golygu rhannu wardiau'r Cyngor Sir. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, byddwn yn eich annog i gadw hen ward Cyngor Sir Maenclochog yn etholaeth Canol a De Sir Benfro.

Diolch am ystyried fy sylwadau.

Yn gywir

[redacted]

**BCW-10591 / [redacted] Myfyrwyr Llafur Caerdydd / Caerdydd**

Rydym yn ysgrifennu ar ran Myfyrwyr Llafur Caerdydd. Dymunwn gyflwyno sylwadau penodol ynghylch natur poblogaeth Cathays mewn perthynas â mwyafrif gweddill etholaeth arfaethedig De Caerdydd.

Mae Cathays yn ward sy'n cael ei dominyddu gan fyfyrwyr, a phrin y mae'r boblogaeth yn mentro y tu hwnt i ffiniau Plasnewydd, Adamsdown a Cathays. Mae'r syniad o wahanu Cathays o Blasnewydd yn cynnwys ein gosod ni gyda Dinas Powys, nad yw llawer o'r myfyrwyr wedi clywed amdano, heb sôn am ymweld ag ef. Mae'n ardal sydd â phoblogaeth wahanol, rhestr wahanol o bryderon gwleidyddol, ac ychydig o gysylltiad ar wahân i ddaearyddiaeth ansylweddol. Yn wir, clywyd un aelod yn dweud "Beth yw Dinas Powys?" wrth ddarllen dros y ffiniau arfaethedig. Mae gennym fwy yn gyffredin o bell ffordd â phoblogaeth sedd Canol Caerdydd a gynigir yn yr Ymgynghoriad Eilradd ac mae'n cynrychioli darlun mwy cywir o etholaeth a ffurfiwyd o amgylch cymuned gydlynol na'r ffiniau newydd hyn.

Mae mwyafrif llethol poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phenylan, gyda neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd. Mae etholaeth nad yw'n adlewyrchu'r ffaith hon yn methu adlewyrchu'r ardal leol yn ei chyfanrwydd. Yn fyr, felly, mae'r cynigion newydd hyn yn rhannu cymuned y myfyrwyr ac yn gosod llawer ohonom mewn ardal nad ydym yn teimlo unrhyw gysylltiad o gwbl â hi. Gobeithiwn y bydd y cyfle hwn yn cael ei ailystyried o blaid cynigion cynharach sy'n cydnabod y pryderon a nodir yma, fel sedd Canol Caerdydd ar ei newydd wedd gan yr Ail Ymgynghoriad.

**BCW-10592 / [redacted] / Trallwm**

Mae 'n drist fod un o siroedd  hynaf a hanesyddol n cael ei difetha oherwydd diffyg poblogaeth.

**BCW-10593 / [redacted] Cyngor Tref Caerffili / Caerffili**

Mae Cyngor Tref Caerffili yn cefnogi'r cynigion diwygiedig ar gyfer Etholaeth Caerffili ac mae'n falch o nodi bod y Comisiwn wedi derbyn bod mwy o gysylltiadau lleol rhwng gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn hytrach na gorllewin Casnewydd a basn Caerffili. Mae'r cynigion diwygiedig yn cysylltu basn Caerffili â'i gefnwlad naturiol yng Nghwm Rhymni isaf.

Yn gywir

[redacted]
Clerc y Dref

**BCW-10594 / [redacted] / Wrecsam**

Rwyf wedi meddwl yn aml bod ffin sirol Wrecsam yn rhy agos mewn mannau i'r dref ei hun. Dylai'r dref fod yn ganolbwynt i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn yr ardal a'r cyffiniau. Fel y mae ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y llinellau'n cael eu tynnu i gyd-fynd â'r niferoedd sydd eu hangen yn hytrach nag ymdrin â'r materion sy'n effeithio ar y rheiny sy'n byw yno. Mae'r ffiniau hyn hyd yn oed yn waeth a byddant yn achosi'r un problemau'n union. Pam fyddech chi'n torri pentrefi ar garreg drws Wrecsam allan o'r ardal? Gallaf ond ddychmygu bod y llinellau hyn yn cael eu llunio y tu allan i'r ardal.

**BCW-10595 / [redacted] / Casnewydd**

Ni allaf gredu bod hyn yn bosibl ac nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr. Mae Casnewydd yn ddinas sy'n tyfu ac yn mynd yn fwy, gan dynnu trigolion o'r tu hwnt i'r ffin â Lloegr, ac mae rhannu dinas fawr yn ddwy gydag ASau ar wahân wedi gwneud synnwyr o ran gwneud cynrychiolaeth wleidyddol yn haws i'r trigolion. Nid ydym yn ymwneud llawer â Chaerffili ac mae'n ymddangos nad yw rhannu AS yn cydnabod dim o'n hawliau democrataidd i gynrychiolaeth leol,. Mae'n debycach i gipio tir i leihau cynrychiolaeth yng Nghymru... Mae'n warthus.

**BCW-10597 / [redacted] / Bethesda**

Pam mae San Steffan yn dewis ymyrryd â'n ffiniau?! Mae gennym ddatganoli felly ni ddylai fod gan San Steffan unrhyw ddweud am hyn! Fel ward sy'n deyrngar i Blaid Cymru, ac wedi bod erioed, bydd cael ei chymysgu a'i gosod gyda ward sy'n ffafrio'r Torïaid yn hanesyddol, yn niweidiol i fy ward. Roedd Bethesda ond yn arfer cael cyllid Ewropeaidd ac mae'n ward dlawd, a bydd ei rhoi gyda ward gefnog Aberconwy yn golygu NA fydd arian yn cael ei wario yma.
Nid yw'r cynlluniau hyn ond yn ffordd ffiaidd o gael ardal Dorïaidd fwy gan fod ein dylanwad yn cael ei ragori gan y Torïaid yn Aberconwy!

## BCW-10598 / [redacted] / Abertawe

Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Rwyf wedi ystyried yn ofalus y cynigion amgen gan Geraint Davies AS. Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r dewisiadau amgen i'ch cynigion diwygiedig a nodir isod. Mae'n arbennig o bwysig cadw Sgeti ac Uplands yn yr un etholaeth gan eu bod nhw wedi'u cyd-gysylltu mewn sawl ffordd. Hefyd mae cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls mewn un etholaeth yn briodol. Rydym ni o blaid dewis dau a nodir gan Geraint Davies AS yn arbennig, sy'n cynnal etholaethau presennol Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn agos. Mae'r farn hon yn cael ei rhannu ar draws nifer o gymunedau gwahanol, gan gynnwys y gymuned Indiaidd.

Y gywir,

[redacted]
Cadeirydd Cymdeithas Indiaidd De-Orllewin Cymru

Annwyl Shereen Williams a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru,

Diolch am eich cynigion ffiniau diwygiedig ar gyfer Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a Chanol a Gogledd Abertawe ar 18 Hydref.

Rwy'n falch o gynnig **dau ddewis arall** (gan ddechrau o'ch cynigion ffiniau diwygiedig) sy'n adlewyrchu'n gryf eich rhesymu a'ch meini prawf ac

**A) Ail-uno Sgeti ac Uplands**
Mae'r wardiau hyn wedi cael eu cysylltu'n ddi-dor mewn daearyddiaeth ac mae ganddynt gymunedau rhyng-gysylltiedig agos.
Mae'r Uplands yn lletya llawer o'r rheiny sy'n gweithio ac yn astudio yn Sgeti yn y Brifysgol ac yn Ysbyty Singleton.
Yn yr un modd, mae nifer o'r cymunedau yn Sgeti yn teithio trwy'r Uplands ar gyfer gwaith, hamdden ac addoli yng Nghanol a Gogledd Abertawe.

**B) Cadw Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr un etholaeth**
Mae'r cynigion hyn hefyd yn uno Mayals â wardiau eraill West Cross, Oystermouth a Newton sy'n ffurfio Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Dewis un**

1. Symud Sgeti (**11,304**) o'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe, i Ganol a Gogledd Abertawe.
2. Symud Pontarddulais (4954), Llangyfelach (3946) a Phenlle'r-gaer (2553) – cyfanswm o **11,453** – yn ôl o Ganol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol, sef Gŵyr a Gorllewin Abertawe 75,363 (2.6% yn uwch na UKEQ) a Chanol a Gogledd Abertawe 71,229 (-2.9% yn is na UKEQ).

**Dewis dau**

1. Symud Sgeti (**11,304**) o'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe, i Ganol a Gogledd Abertawe.

2. Symud Pontarddulais (4954), Mawr (1438) a Phenlle'r-gaer (2553) – cyfanswm o **8,945** - o Ganol a Gogledd Abertawe i'r Gŵyr a Gorllewin Abertawe.

Mae hyn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynol fyth, sef Gŵyr (wedi'i hailenwi) 72,855 (0.7% yn is na UKEQ) a Chanol Abertawe (wedi'i hailenwi) 73,737 (0.4% yn uwch na UKEQ).

Mae'r ddau ddewis arall yn parchu ffiniau'r etholaethau presennol yn agosach.

Mae **Dewis Un** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontarddulais, Llangyfelach a Phenlle'r-gaer yn etholaeth bresennol y Gŵyr.
Mae **Dewis Dau** yn cadw Sgeti yn etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe a Phontarddulais, Mawr a Phenlle'r-gaer yn etholaeth bresennol y Gŵyr

Mae'r ddau ddewis arall hyn yn llai radical na chynigion diwygiedig y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan eu bod yn


- darparu ffit a chysylltiadau daearyddol mwy cydlynol
- cadw cysylltiadau cymunedol presennol yn gryfach a lleihau anghyfleustra
- datrys problem "rhannu Sgeti oddi wrth Uplands"
- uno Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn un etholaeth.

Rwy'n ffafrio Dewis Dau sy'n

- creu sedd newydd 'Canol Abertawe' sy'n cynnwys Llangyfelach
- a sedd 'Gŵyr' newydd fwy cyson
- creu dwy etholaeth ill dwy o fewn un y cant o UKEQ 73,393 (sydd â'r gallu ar gyfer mwy o amrywiaeth o ran y boblogaeth).

Felly, rwy'n argymell yn gryf y dewisiadau amgen hyn i chi. Mae mapiau canllaw o'r ddau ddewis arall isod er hwylustod i chi.
Dymuniadau gorau

Geraint Davies AS
Gorllewin Abertawe


ALTERNATIVE 1
Pontardulais
Mawr
Llangyfelach
Penllergaer
SWANSEA CENTRAL
& NORTH
GOWER
Sketty
ALTERNATIVE 2
Pontardulais
Mawr
Llangyfelach
Penllergaer
SWANSEA CENTRAL
GOWER
Sketty

## BCW-10599 / [redacted] / Gwaun Cae Gurwen

Annwyl Gomisiynwyr

Fel un o drigolion pentref Gwaun Cae Gurwen, rwy'n ysgrifennu mewn pryder ynghylch y bwriad i newid ffiniau etholaethau etholiadol a fydd yn golygu ein bod yn rhan o ffin etholiadol newydd, sef 'Brycheiniog, Maesyfed a Chwm-tawe'.

Mae bod yn rhan o etholaeth bresennol 'Castell-nedd a Dwyrain Abertawe' yn gwneud synnwyr i mi mewn sawl ffordd. Mae'r ardal hon yn rhannu treftadaeth ddiwydiannol â'i chyd-etholwyr, ac mae gennym lawer o bryderon a gwerthoedd yn gyffredin, ac rydym yn rhannu problemau cyffredin hefyd - problemau sy'n rhai trefol, nid rhai gwledig. Nid yw Brycheiniog, Maesyfed a rhannau pellach o Gwm-tawe yn teimlo'n ddigon agos ac nid wyf yn siŵr y bydd ein cymuned fach ni'n gallu tynnu ei phwysau ei hun a chael ei chlywed gan gynrychiolwyr newydd o'r ardal honno, sydd efallai ddim yn gwerthfawrogi ein hamgylchiadau a'n hanghenion gwahanol iawn, ac, o ddod o aelwydydd incwm is yn gyffredinol, rwy'n ofni efallai na fydd lleisiau'n cael eu clywed ac ni fydd y gymuned hon yn cael ei chynrychioli'n llawn gan bobl sydd ag ychydig iawn yn gyffredin â ni. Mae Aberhonddu ac ati yn fwy o ardal ffermio/gwledig - ardal na fyddai pobl o'r ardal hon prin byth yn ymweld â hi, heblaw efallai ar ddiwrnod allan yn achlysurol iawn.

Mae gen i ofn y gallai newidiadau o'r fath olygu bod ein cymuned ar ei cholled, a bydd ein llais pleidleisio – Llafur yn bennaf, ond Plaid Cymru hefyd - yn cael ei golli hefyd, sydd ddim yn deg, ac o bosibl yn arwain at bobl yn cael eu dadrithio â'r broses etholiadol.

Ystyriwch fy marn a pheidiwch â gwneud y newid hwn.

Yn gywir, [redacted]

[redacted]

## BCW-10600 / [redacted] / Anhysbys

Annwyl Syr/Madam

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru (BCW) sy'n ymwneud ag etholaethau seneddol Caerffili a Chasnewydd.

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn amlwg wedi gwrando ar bryderon y cyhoedd ynghylch ei gynigion cychwynnol i gysylltu cymunedau Basn Caerffili ag etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Credaf fod yr awgrym hwn yn ceisio cysylltu dwy ardal nad oes ganddynt lawer o gysylltiadau daearyddol, cyfathrebu, cymdeithasol, hanesyddol, a diwylliannol.

Mae eich cynigion diwygiedig yn cydnabod ei fod yn llawer mwy synhwyrol ac yn unol â barn y cyhoedd, i gynnal y cysylltiadau rhwng Basn Caerffili a'i gymoedd cefnwlad i'r gogledd. Mae'r cynigion diwygiedig hefyd yn cydnabod bod gan Gymoedd Sirhywi a Glyn Ebwy gysylltiadau llawer cliriach â rhan orllewinol Casnewydd.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10601 / [redacted] / Caerdydd**

Rydych yn nodi ar eich gwefan, 'Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan bobl ynghylch i ba raddau y mae'r cynigion yn adlewyrchu'r cysylltiadau lleol yn yr ardal, ac os yw pobl yn anghytuno â'n cynigion, sut maen nhw'n credu y dylid eu diwygio.' Credaf nad yw eich cynigion yn ystyried cysylltiadau lleol ar gyfer Cathays a'i fod yn ymwneud â rhifau yn unig.

Rwyf wedi fy syfrdanu eich bod yn cynnig symud Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth. Nid oes ymgynghoriad priodol wedi cael ei gynnal ar yr opsiwn hwn ac mae'n ymddangos ei fod wedi digwydd yn sgil un awgrym a wnaed gan rywun o Altringham. Mae'r opsiwn hwn bellach wedi cael ei gyflwyno fel penderfyniad di-droi'n-ôl. Honnodd hyd yn oed eich Ysgrifennydd i'r Comisiwn Ffiniau y byddai gan y cyhoedd "y cyfraniad cyhoeddus mwyaf i ni ei gael erioed... Mae gan bawb yng Nghymru lais gwerthfawr i ychwanegu at y drafodaeth am newidiadau i ffiniau Cymru, ac rydym eisiau sicrhau y gall pawb fynegi eu barn." Mae'n amlwg nad yw hyn wedi digwydd.

Mae'n amlwg i mi fel preswylydd o bron i 35 mlynedd nad oes gan Cathays gysylltiadau cymunedol â'r wardiau yn Ne Caerdydd a Phenarth, tra bod gan Cathays a Phlasnewydd gysylltiadau cymunedol niferus. Dyma ychydig o'n cysylltiadau â Phlasnewydd. Rwy'n siŵr y byddai unrhyw ymchwiliad trylwyr gan y Comisiwn yn datgelu llawer mwy:

• Mae mwyafrif helaeth o boblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a champws Caerdydd Prifysgol De Cymru yn byw yn Cathays a Phlasnewydd. Mae adeiladau Prifysgol Caerdydd yn rhychwantu Cathays, Plasnewydd a Phen-y-lan gyda neuaddau preswyl yn agos at Cathays a Phlasnewydd.
• Mae dalgylch yr ysgol uwchradd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys Cathays a Phlasnewydd.
• Mae'r plant yn ysgolion cynradd Cathays a Phlasnewydd yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Uwchradd Cathays, Bro Edern (wedi'i lleoli ym Mhen-y-lan) neu Ysgol Uwchradd Caerdydd (wedi'i lleoli yng Nghyncoed). Mae dalgylchoedd Ysgol Mynydd Bychan a St Monica yr Eglwys yng Nghymru i gyd o fewn ardal ehangach y Rhath, sy'n cynnwys Cathays.
• Mae'r cysylltiadau cymunedol ar draws Cathays, Plasnewydd ac yn wir Pen-y-lan a rhannau o Gyncoed, yn golygu bod trigolion y tair ward etholiadol yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned y Rhath sy'n canolbwyntio ar ardaloedd siopa Heol y Crwys, Heol Albany a Heol y Ddinas.
• Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael eu rhannu rhwng Cathays a Phlasnewydd yn hirsefydlog ac yn cael eu parchu'n gywir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn.
• Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cael ei threfnu o fewn ffiniau presennol Canol Caerdydd.
• Mae dalgylchoedd meddygfeydd hefyd yn croesi ffiniau Cathays a Phlasnewydd ac yn rhannu pryderon a demograffeg gyffredin.

Mae eich cynigion diwygiedig yn mynd yn groes i ysbryd eich rheol 5 eich hun – rydych yn symud 4 ward yn hytrach na 2, fel y cynigiwyd yn flaenorol.

Nid yw'r cynigion yn ystyried cysylltiadau cymunedol a dylid adfer y cynigion ffiniau a gynigiwyd yn ystod yr ail ymgynghoriad.

## BCW-10602 / [redacted] / Anhysbys

I’r sawl y mae’n ymwneud ag ef,

Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i siarad o blaid y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') sy’n ymwneud ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Rwy'n werthfawrogol bod y Comisiwn yn amlwg wedi gwrando ar ymchwydd barn y cyhoedd yng Nghwm Rhymni isaf yn erbyn ei gynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gysylltu cymunedau Basn Caerffili ag etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd. Rydych wedi cydnabod bod yr awgrym hwn yn anghynaliadwy oherwydd ei fod wedi ceisio cysylltu dwy ardal nad oes ganddynt lawer o gysylltiadau daearyddol, cyfathrebu, cymdeithasol, hanesyddol, a diwylliannol.

Rydych chi hefyd wedi cydnabod ei bod hi'n llawer mwy synhwyrol, ac yn unol â barn y cyhoedd, i gynnal y cysylltiadau rhwng Basn Caerffili a chyffiniau'r Cymoedd i'r gogledd. Ar yr un pryd, rydych wedi cydnabod bod Cymoedd cyfagos Sirhywi ac Ebwy yn cynnig gogwydd mwy naturiol tuag at ran orllewinol Casnewydd.

Mae'r cynigion diwygiedig wedi cael eu croesawu’n gynnes, ac rwy'n annog iddynt gael eu cynnal yn ystod y trydydd cyfnod ymgynghori.

Yn gywir,
[redacted]

## BCW-10603 / [redacted] / Abertawe

Mae rhan uchaf Cwm Tawe yn ardal sydd ag hunaniaeth gref iawn, yn hanesyddol ac ar hyn o bryd. Mae cysylltiadau naturiol Ystalyfera i'r de a'r dwyrain - ar hyd Cwm Tawe i Abertawe, ac ar draws i Cwm Nedd a Chastell-nedd.
Mae'r cynnig presennol yn rhwygo fy ward allan o'i chyd-destun sefydledig a naturiol, ac yn ein gosod gydag etholaeth bresennol gyfagos sydd â chymeriad tra gwahanol. Rwy'n deall bod y cynigion presennol wedi cael eu seilio'n bennaf ar rhifyddeg, ond does bosib bod rhaid cael rhywfaint o hyblygrwydd. Yn llythrennol, byddai cael ein cynnwys yn unrhyw un o'r seddi cyfagos eraill yn well na'r cynnig presennol.

## BCW-10604 / [redacted] / Ystrad Meurig

Rwy'n gwrthwynebu'r ffin etholaeth newydd. Mae'n llawer rhy fawr i un AS, ac mae'n sicr y byddai ei gymorthfeydd lleol yn llai o ran nifer oherwydd hynny. Credaf hefyd bod gwedd cymdeithasol a gwleidyddol Ceredigion yn hollol wahanol i bron unrhyw ran o Sir Benfro, felly mae'n debyg y byddai'r unigrywiaeth hon yn colli ei llais yn y Senedd. Mae angen i bobl Ceredigion gadw eu hetholaeth fel y mae, a rhaid i'r sir gadw ei hunaniaeth wleidyddol.

**BCW-10605 / [redacted] / Abertawe**

Mae hyn yn amlwg yn newid sydd â chymhelliant gwleidyddol i sicrhau mwy o bleidleisiau i'r Ceidwadwyr. Nid wyf yn credu bod y newidiadau i'r ffiniau yn dangos parch at gymunedau unigol yn seiliedig ar hanes na'r presennol. Mae'n amlwg fod Gŵyr (cymuned wledig gyfan) yn wahanol (er yn gysylltiedig) i Orllewin Abertawe (trefol), fel y mae Castell-nedd yn wahanol i Ddwyrain Abertawe.

Bydd cost gneud hyn nawr yn enfawr yn weinyddol ar adeg pan mae gwasanaethau lleol ar ymyl y dibyn drwy gostau cynyddol a thangyllido.

Hoffwn weld cynrychiolaeth gyfrannol yn disodli'r system y cyntaf i'r felin sydd yn amlwg yn anghynrychioliadol o'r bobl. Pryd gawn ni bleidleisio ar gynrychiolaeth gyfrannol? Byddai hyn, pe byddai'n cael ei fabwysiadu, yn gynrychiolaeth lawer tecach o safbwyntiau pobol.

**BCW-10606 / [redacted] / Abertawe**

Mae'r ffiniau yn fympwyol gan osod gwneud yr etholaethau o faint cyfartal uwchben rhwymau a chysylltiadau lleol e.e. mae Pontardawe yn un o faestrefi noswylio Abertawe, nid yw'n rhan o Bowys wledig

**BCW-10607 / [redacted] / Rhuthun**

O ystyried bod y llywodraeth yn defnyddio amcan cyffindwyllo i gyweirio'r wrthblaid - yn enwedig unrhyw leisio barn annibynnol - nid yw'r cynigion hyn yn syndod mawr. Mae llawer o'r farn bod gafael San Steffan yn anachroniaeth ddinistriol y mae angen ei gwahanu'n llwyr. Mae cynigion fel y rhain yn debygol o wneud cyfiawnhau safbwyntiau o'r fath yn haws.

Dylid gwrando'n ofalus ar sylwadau niferus a synhwyrol sy'n amlygu ansensitifrwydd diwylliannol a chymdeithasol y cynigion hyn ac ailfeddwl y cyfan.

**BCW-10608 / [redacted] / Prestatyn**

Pam ydych chi'n gwneud hyn? Ai er mwyn lleihau'r ASau fydd gan Gymru? Ai cyffindwyllo i helpu'r Torïaid i barhau mewn grym.
A oes gan y Senedd unrhyw lais yn hyn?
Rydym wedi cael digon o newidiadau i ffiniau yng Nghymru a osodwyd arnom gan San Steffan.
Rydw i wedi byw mewn 3 sir wahanol, sef Sir y Fflint, Clwyd, Sir Ddinbych, heb hyd yn oed symud, mae'n annifyr iawn.
Ai er mwyn lleihau llais Cymru yn y Senedd yw hyn.

**BCW-10609 / [redacted] / Ystrad Meurig**

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Ceredigion Preseli. Byddai'r etholaeth, sy'n mwynhau hunaniaeth ddiwylliannol agos a phenodol, yn mynd yn rhy fawr. Heb os, byddai ein ASau yn mynd yn llai hygyrch ac rwy'n ofni y byddwn i'n cael fy nghynrychioli hyd yn oed yn waeth - ond efallai mai dyna'r cymhelliad ar gyfer y newidiadau, o ystyried bod y cynigion yn cael eu gosod gan lywodraeth bell yn Llundain.

**BCW-10610 / [redacted] /**
**Caerffili**

[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL

3 Tachwedd 2022

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaeth Islwyn. Mae Islwyn wedi bod yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd gyda hunaniaeth etholaethol go iawn. Mae'n cynnwys llawer o fwrdeistref sirol Caerffili, gan gynnwys trefi Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.

Fodd bynnag, o dan y cynigion diwygiedig diweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni yn cael ei chynnwys yn sedd fwy Gorllewin Casnewydd.

Byddai’r cynigion gwreiddiol mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent wedi gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei gyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a'r Hengoed at Islwyn yn addas, gan ystyried y cymunedau a rennir yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y Draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, tra bod Sant Catwg yn ffinio â Pengam. Mae'r cymunedau hyn felly yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Yn hytrach, byddai'r gwrth-gynnig mabwysiedig yn diwygio etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfaith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, i greu sedd Caerffili a sedd honedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o weddill yr etholaeth bresennol.

Nid yw rhannu Trecelyn o'r Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud unrhyw synnwyr. Mae gan ardal Pontllanfraith, Trecelyn a Choed-duon gysylltiad anorfod â theuluoedd a chymunedau a rennir. Nid oes unrhyw un o Ysgolion Cynradd Islwyn yn bwydo i mewn i Ysgolion Uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd newydd Islwyn yn Oakdale yn cynnwys ysgolion o Bontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cysylltiad trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o drigolion pryderus Islwyn, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd hyn ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i gael gwared ar Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i fy nhref breswyl gael ei hamsugno i Orllewin Casnewydd. Ni theimlaf fod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol na diwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i haeddu colli etholaeth Islwyn.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10611 / [redacted] / Caerffili**

[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 OBL

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,,

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaeth Islwyn. Mae Islwyn wedi bod yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd gyda hunaniaeth etholaethol go iawn. Mae'n cynnwys llawer o fwrdeistref sirol Caerffili, gan gynnwys trefi Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.

Fodd bynnag, o dan y cynigion diwygiedig diweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni yn cael ei chynnwys yn sedd fwy Gorllewin Casnewydd.

Byddai’r cynigion gwreiddiol mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent wedi gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei gyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a'r Hengoed at Islwyn yn addas, gan ystyried y cymunedau a rennir yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y Draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, tra bod Sant Catwg yn ffinio â Pengam. Mae'r cymunedau hyn felly yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Yn hytrach, byddai'r gwrth-gynnig mabwysiedig yn diwygio etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfaith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, i greu sedd Caerffili a sedd honedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o weddill yr etholaeth bresennol.

Nid yw rhannu Trecelyn o'r Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud unrhyw synnwyr. Mae gan ardal Pontllanfraith, Trecelyn a Choed-duon gysylltiad anorfod â theuluoedd a chymunedau a rennir. Nid oes unrhyw un o Ysgolion Cynradd Islwyn yn bwydo i mewn i Ysgolion Uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd newydd Islwyn yn Oakdale yn cynnwys ysgolion o Bontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cysylltiad trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o drigolion pryderus Islwyn, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd hyn ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i gael gwared ar Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i fy nhref breswyl gael ei hamsugno i Orllewin Casnewydd. Ni theimlaf fod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol na diwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i haeddu colli etholaeth Islwyn.

Yn gywir,

[redacted]

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023